

ECO'R WYDDFA

RHIF 370

HYDREF

PRIS 50c

Yn y rhifyn hwn:

- Ysgol Sul Lewyrchus
- O'r Cyngorau Cymuned
- Prif Ddisgyblion Ysgol Brynrefail

PARTI PENTRA' – A DATHLU PENBLWYDD



Y Caban



Staff y Caban



Sally a Bethan



Rasus malwod!

BWRLWM BRYNREFAIL YN Y CABAN

Ddydd Sadwrn, y 5ed o Fedi, daeth nifer o blant ac oedolion ynghyd i ddathlu pen-blwydd y Caban yn 5 oed. Vmysg yr aml weithgareddau, cafwyd Hella Drysor, Gwisg Ffansi, Mabalgampau o bob math, Cwm Bel-droed rhwng yr Iau a'r Hŷn - gyda'r rhai Hŷn yn fuddugol! Roedd rasys hyd yn oed i falwod a gortfen yr oll gyda Sioe Gwn. Tra roedd yr holl weithgareddau yma ymlaen, cafwyd picnic enfawr ac adloniant gan grŵp Mooncoin a Kev Fox.

Da oedd gweld y Caban yn ganolfan nid yn unig i'r pentref ond i'r ardal eang ac yn llawn haeddu canmoliaeth ar ei ben-blwydd.

Llawer o ddiolch i'r Rheolwyr a'r Staff am ddiwrnod i'w gofio. Er mai nid diben y dydd oedd codi arian, fe wnaed clw ac fe'i defnyddir er budd ieuenctid y pentref.

Llawer o ddiolch iddynt hwythau hefyd am ein diddori ar y nos Wener ar barc bwrdd-sglefrio Cwm-y-Clo.

Diolch i bawb gyfrannodd at lwyddiant y dydd.



Cacennau di-ri

ECO'R WYDDFA

**RHIF 370
HYDREF 2009**

Argraffwyd gan Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Erthyglau a newyddion
at ohebwyr pentref neu i
Penarth**

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA

Straeon ac erthyglau ar e-bost i
alwenaowen@gmail.com
neu Tir Iarll, Llandwrog LL54 5TE
neu storiau@ecorwyddfa.co.uk

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard L. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

Elifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
elifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Elifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Flynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r

golygyddion perthnasol

NOS SUL Hydref 18fed

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU Hydref 29ain

Dyddiad Gosod

SUL Hydref 25ain, 5 y pnawn

Sefydliad Coffa Llanrug

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Gosod	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Tachwedd	Sul 18 Hydref	Sul 25 Hydref	Iau 29 Hydref	Llanberis	Elifion Roberts	870 740

Llythyrau

**GŴYL CERDD DANT
GLANNAU MENAI 2010**
13eg, Tachwedd, 2010
Neuadd PJ, Prifysgol Bangor

14, Ffordd Ffrydilas,
Carneddi,
Bethesda,
Gwynedd, LL57 3BL
Ffôn: 01248 602 323
e-bost: delythfon@hotmail.com

Annwyl Ddarllenwyr,
Ysgrifennaf ar ran Pwyllgor
Gwaith Gŵyl Cerdd Dant
Glannau Menai 2010 i apelio
atoch am eich cefnogaeth i ni
gyda'r gwaith o drefnu a lletya'r
ŵyl ym Mangor ar ddydd
Sadwrn, 13eg o Dachwedd y
flwyddyn nesaf. Fel y
gwyddoch, yr Wyl Cerdd Dant
yw un o Brif wyliau Cymru ac fe
gynhelir Gŵyl Glannau Menai
2010 yn Neuadd Pritchard
Jones, Prifysgol Bangor.

Mae'r testunau bellach wedi
eu dewis ac felly rhaid mynd ati
i geisio trefnu gweithgareddau i
godi arian, i hel gwobrau tuag at
y cystadlaethau amrywiol ac,
wrth gwrs, i ddenu llu o
wirfoddolwyr i'n cynorthwyo
gyda'r gwaith yn arwain at yr
ŵyl a chynorthwyo gyda
stiwardio ac ati ar ddiwrnod yr
ŵyl.

Os hoffech gynorthwyo
mewn unrhyw fodd byddem yn
falch o glywed gennych. Hefyd,
os dymunwch roi gwobr tuag at
unrhyw gystadleuaeth,
cysylltwch â mi a gallaf anfon
gwybodaeth pellach atoch.
Edrychaf ymlaen i glywed
gennych.

Yn gywir,
DELYTH VAUGHAN
Ysgrifennydd y Pwyllgor
Gwaith

COFEB O.G.OWEN YM MRYNRODYN

Bron Ceris
Fachwen

Annwyl Olygydd,
Yn ddiweddar rwyf wedi bod yn
gwneud ychydig o waith
ymchwil ar Alafon - Y Parch
O.G. Owen, Ysgoldy gynt, hyd
ei farw yn 1916.

Mae cofeb iddo ym mynwent
Brynrodyn ac hefyd (neu fe
oedd yn fy amser i yn Ysgol
Brynrefail - gadewais yn 1958),
Ysgoloriaeth yn ei enw, y cyfan
wedi eu codi gan gyfeillion ac
edmygwyr yr anwylaf
addfwynaf Alafon.

Cefais sioc/siom ddoe wrth
edrych ar stad ei gofologofn ym
Mrynrodyn. Mae tâp du wrth
stanc yn ei dal i fyny a'r ysgrifen
wedi crydu. Wrth dynnu eich
sylw at hyn, gofynnaf a oes
cyfeillion ac edmygwyr o'r
bardd bregethwr ar ôl yn yr
ardal lle treuliodd ei oes.

Yr eiddoch yn gywir
NORMAN CLOSS

RHODDION

£20: Teulu Bryn Ogwen, Bethel.

£10: Lowri Roberts Williams,
Godre'r Coed, Brynrefail; Gwyn
Hefin ac Ifanwy Jones, Rhandir,
Brynrefail; Vera Williams,
Awelon, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug; Mr a Mrs Andrew
Griffith, Tan y Bwlch,
Dinorwig; Betty Pritchard, 3
Llys y Gwynt, Penisarwaun;
Goronwy Lewis, 13 Stryd
Ceunant, Llanberis; Mrs
Margaret Ellen Jones, Hafan,
Porth y Gogledd, Deiniolen.

£5: Kenneth, Rhiannon a'r
genod, Nant y Glyn, Llanrug;
Eirlys Jones, Gwynant, Bryn
Hyfryd, Penisarwaun.

Côr Meibion Dinas Bangor

Cyn cael gwyliau haf am fis
rhwng 18 Awst a 23 Medi
canodd y Côr mewn sawl
cyngerdd: yng Nghapel St Ioan,
Llandudno ar 7 Gorffennaf,
Betws y Coed ar 9 Awst a Chapel
St Ioan, Llandudno ar 18 Awst.
Yn ystod y cyngherddau cafwyd
sawl unawd gan aelodau y Côr
gan gynnwys Bob Thomas, bas;
Norman Evans, bas; Gareth
Hughes, corn a James Griffiths,
organ. Y cyfeilydd i'r unawdwyr
oedd Gwilym Lewis a Lowri
Roberts Williams yn cyfeilio i'r
Côr.

Ar 6 Hydref bydd y Côr yn
dychwelyd i Gapel St Ioan
Llandudno i ganu unwaith eto.
O 13 Hydref tan y Nadolig bydd
yr Arweinydd, James Griffiths,
yn Seland Newydd yn arholi
cerdd ac yn ei absenoldeb
arweinir y Côr gan y Dirprwy,
Gwilym Lewis. Bydd y Côr yn
cymryd rhan fel rhan o gôr
mawr mewn cyngerdd i gorau
meibion yn Neuadd Pritchard
Jones, Bangor ym mis
Tachwedd - y ddau arweinydd
fydd Gwilym Lewis ac Ildid Ann
Jones.

Bydd ymarfer cyntaf tymor y
gaeaf yn Ysgol y Faenol,
Penrhosgarnedd nos Fercher 23
Medi am 7.30 yr hwyr. Bydd
croeso cynnes i ddarpar aelodau
ddod heibio i wrando a chael
sgwrs neu i aelodau o'r cyhoedd
sy'n awyddus clywed y Côr yn
canu. Byddwn bob amser yn
croesawu ymwelwyr.

Bu farw Norman Williams,
priod ein cyfeilyddes, Lowri
Roberts Williams. Daeth nifer
dda o'r aelodau i'r angladd yng
Nghapel Coch, Llanberis ar
ddydd Llun 7 Medi.
Cydymdeimlir yn fawr iawn
gyda Lowri yn ei phrofedigaeth.

Cyfeillion Ysbyty

Gwynedd

Arddangosfa Gosod Blodau
gyda darlleniadau a
barddoniaeth

'NADOLIG TUDURAIDD'
gyda 'Flower Ladies' o Sir

Gacr

Theatr Addysg, Ysbyty

Gwynedd

23 Tachwedd, 2009

am 7.30 y.h.

Tocynnau: £7, yn cynnwys
lluniaeth

Tocynnau ar werth ar Fwrdd

Gwerthu'r Cyfeillion

Yn Ysbyty Gwynedd ar

Ddydd Mawrth a Iau

Gefnogwch ein ysbysebwy



WAUNFAWR

• Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant

• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol

• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go iawn

Ffôn: (01286) 650218

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

CYNLLUN EFE. Bydd Noson Goffi a byrddau gwerthu yn cael ei chynnal yn Festri Capel Coch, Llanberis, nos Wener, 2 Hydref am 6.30 o'r gloch. Yr elw at 'Gynllun Efe' (i gadw gweithiwr ieuenctid ym Mro'r Eco.)

Dewch i gefnogi'r ymgyrch werthfawr hon. Diolch yn fawr. Y GYMDEITHAS. Bydd y tymor yn aildechrau ar 13 Hydref yn Festri Capel Coch am 7:15yh ac mae rhaglen amrywiol wedi ei pharatoi am y tymor.

Y gŵr gwadd ym mis Hydref yw Mr Dafydd Whiteside Thomas, Llanrug, ei destun fydd, 'Tair Llofruddiaeth yn yr Ardal'. Croeso cynnes iawn i aelodau hen a newydd. Cewch drafod y testun wedyn gyda phoned a bisged.

DIOLCH. Dymuna Gwyneth, Y Gelli, Rhes Eilian, ddiolch i bawb a fu o gymorth a chefnogaeth iddi, dros y deuddeg wythnos ddiwethaf, yn ystod cyfnod ei hanhwylder.

DIOLCH. Dymuna Goronwy Lewis, 13 Stryd Ceunant, ddiolch i'w blant, Olwen, Maldwyn ac Emma, hefyd ei wyrion a'i wyresau, Katie, Laura, Gareth a Daniel am eu cariad a'u gofal ohono wrth gofio'r golled o golli gwraig, mam, a nain annwyl

iawn. Hefyd, dymuna ddiolch i'w deulu a'i ffrindiau, ymhell ac agos, ac am y galwadau ffôn, y cardiau a'r arian a dderbyniwyd.

Diolch i'r Feddygfa yma yn Llanberis am eu gofal caredig, hefyd y Nyrsys oedd yn galw bob dydd, diolch i holl staff y Fferyllfa am fod mor annwyl.

Diolch i'r Parch Robert Townsend, Y Parch John Pritchard, Mr Derek Jones ac hefyd i Iwan Williams yr organydd, Richard Jones a Dafydd Owen, ac i'r cludwyr, Derlwyn, Edwin, Arwel a Dylan.

Diolch yn arbennig i Mr Dylan Griffiths a Meinir yr ymgymerwyr am eu gofal ohonom fel teulu, bu bob gair ganddynt yn gysur mawr i ni i gyd.

Diolch i bawb. PLYGU'R ECO Twrn Llanberis fydd hi i blygu Rhifyn Tachwedd o'r Eco. Erfyniwn ar unrhyw un a fu'n plygu o'r blaen, neu a hoffai gynorthwyo ar y diwrnod, ddod i Westy Dolbadarn ar y 29ain o Hydref. Gan fod yr Eco'n dod o'r wasg yn gynharach yn awr, gobeithir cychwyn plygu tua 3 o'r gloch y prynhawn. Ffoniwch Eifion ar 870740 am fwy o fanylion, neu fffoniwch Dolbadarn ar y diwrnod.

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275



Plant y Dosbarth Meithrin: Wil, Enid, Seren, Evie, Roxanne, Elin ac Anya.

LLONGYFARCHIADAU i Cheryl, 22 Dôl Afon, ar ei chanlyniadau Lefel A a phob dymuniad da iddi ym Mhrifysgol Bangor.

PEN-BLWYDD. Dymuna Kerry, Dewi a John, 13 Dôl Afon, ddymuno pen-blwydd hapus iawn i'w chwaer fach, Catrin Eleri, ar ei phen-blwydd yn un oed ar 1 Hydref.

UNDEB Y MAMAU. Y mae aelodau Undeb y Mamau Llanrug a Chwm y Glo wedi ymuno gyda changen Llanbeblig Caernarfon.

Cafwyd cyfarfod cyntaf y tymor yn Eglwys Sant Mair bawn Mawrth, 15 Medi. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaidd gan y Ficer, Y Parch Jeffrey Hughes. Yr organyddes oedd Mrs Louie Jones. Darllenwyd y llithoedd gan Miss Margaret Davies a Mrs Pat Walden a'r gweddïau gan Mrs Auriel Howel.

Ar ôl y gwasanaeth trafodwyd materion perthnasol a chafwyd llniaeth wedi ei baratoi gan aelodau cangen Llanbeblig.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 20 Hydref yn neuadd Feed my Lambs, Caernarfon, pan fydd y gangen yn dathlu 90 o flynyddoedd.

Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras.

YSGOL GYMUNED CWM Y GLO. Croeso yn ôl i bawb ar ôl gwyliau'r haf - a chroeso arbennig i'r plant bach newydd yn y meithrin a'r dosbarth derbyn. Mae Mr Jackson yn mwynhau ei hun yn fawr iawn yng nghwmni plant a staff arbennig Ysgol Cwm y Glo (Diolch am y croeso!). Braf o beth, hefyd, ydy cael croesawu Miss Llinos i'r ysgol; mae hi'n gweithio'n achlysurol yn nosbarth Peris.

Digwyddiadau Diddorol. Mae yna newid sylweddol wedi bod yn yr ysgol eleni, gyda'r athrawon yn addysgu cyfnodau mewn gwahanol ddosbarthiadau. Mae Mrs Roberts yn treulio'i hamser yn nosbarthiadau Peris a Llydaw, tra bod Mrs Oliver yn addysgu gwyddoniaeth i ddosbarth Marchlyn a Miss Jones yn addysgu Ffrangeg i'r un dosbarth.

Yn ogystal â hyn, rydym yn croesawu Mr Dewi Tomos a Mrs Mair Tomos i ddosbarth Marchlyn bob bore Mercher ar gyfer gweithgareddau cyfeiriannu a datrys problemau; diolch i'r ddau am eu gwaith caled

GWASANAETH GOFAL CARTREF
Caredig cyf

GOFALU AM EIN CYMUNEDAU

- ASESU MEWNOL A CHYNLLUN GOFAL
- GOFAL PERSONOL-BATHIO
- CYMORTH I GODI A MYND I'R GWELU
- EISTEDD YN YSTOD Y DYDD A GYDA'R NOS
- GLANHAU • SIOPA • COGINIO • OWTIN
- CEFNOGI POBL
- CYSYLLTU A GWASANAETHAU ARBENIGOL

A ydych yn hoffi gweithio a phobl neu ffansi gyrfa newydd?

Mae Caredig Cyf yn awyddus i gyflogi pobl lleol i weithio gyda'n cwmni. Mae hyfforddiant a chefnogaeth trwyadl ar gael. Rydym yn recriwtio yn gyson fel mae'r cwmni yn ehangu ac angen gweithwyr i weithio unai rhan amser, amser llawn neu gyda'r nos. Am fanylion pellach cysylltwch a-

Iola neu Ellis Wyn Jones ar-

Bangor 01248 672622 • Llun i Gwener • Oriau'r Sŵyddfa 9-5pm.

UNED F3 - INTEC-FFORDD Y PARC-PARC MENAI-GWYNEDD LL57 4FC
FFON-01248 672622 • FFACS- 01248 672601
EBOST- post@caredig.com

CEIR CYMRU BETHEL (01248) 670451

(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion a'r Gaerwen, Môn)

A ydych yn ystyried newid eich car o fewn y flwyddyn nesaf? Ystriwch y ffeithiau hyn:

1. Mae tri-chwarter y ceir newydd a gaiff eu gwerthu ym Mhrydain yn colli rhwng 25% a 30% o'u gwerth erbyn eu bod yn naw mis oed.
2. Mae cwmnïau mawr a chwmnïau lesio a llogi yn derbyn oddeutu 25% o ddisgownt wrth brynu eu ceir ac felly mae'r cerbydau hyn yn dod ar y farchnad am brisiau isel ac fel arfer mewn cyflwr rhagorol wedi cael eu cynnal a'u cadw heb ystyried costau.
3. Mae gennym brofiad o 40 mlynedd yn prynu a gwerthu ceir ail-law ac rydym, ar gyfartaledd, yn trafaelio mil o filltiroedd bob wythnos yn chwilio am y bargeinion gorau er mwyn eu cynnig i bobl Gwynedd ar elw sydd fel arfer o gwmpas 5% o'r pris.

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

CLWB BRO BETHEL. Braf oedd cael cyd-gyfarfod ar ôl seibiant dros misoedd yr haf. Cydymdeimlwyd â theulu Cilan yn eu profedigaeth o golli Goronwy Jones, ac yntau yn Llywydd y Clwb. Bu i bawb sefyll er cof amdano.

Anfonwyd cofion at Trefor a Nancy Williams, Rhoslyn, y ddau heb fod yn dda iawn yn ddiweddar. Hysbyswyd pawb am Gynhadledd Flynnyddol Age Concern Gwynedd a Môn a derbyniwyd pump enw i fynychu'r cyfarfod. Cytunodd Jenkin Griffiths, ar ran y Clwb, i osod torch ar y Gofeb ar Sul y Cofio.

Y siaradwr gwadd oedd Dafydd Ellis, Brynrefail. Ei destun oedd 'Seiri Dol'ddelan'. Fe gafodd ei ddwyn i fyny ym mhentre bach Dolwyddelan, a dyna lle y cafodd y diddordeb yng nghreffft y saer coed, fel hobi, gan olrhain hanes nifer o ddynion a oedd wedi dylanwadu arno pan yn ifanc. Roedd wedi dod â sawl enghraifft o'i waith ei hun i'w harddangos gan gynnwys crud babi, cwpwrdd bach i ddal deunydd gwnïo, bwrdd, ffôn, a phob un yn dangos gwaith cywrain arbennig y crefftwr.

Diolchwyd iddo am brynhawn difyr dros ben, ac i'r merched fu'n paratoi'r te, sef Megan Humphreys ac Elizabeth Evans.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 6ed. yn Festri Cysegr gydag Ann Cumberton yn sôn am waith yr Ambiwylans Awyr.

MERCHED Y WAWR. Agorwyd y gweithgareddau am eleni gyda nifer dda o aelodau yn bresennol, a chroesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Llywydd, Mair Read.

Llongyfarchwyd ieuencid y pentref ar lwyddiannau mewn arholiadau Ysgol a Choleg, a dymunwyd yn dda i'r rhai oedd ar fin cychwyn ar brofiadau newydd. Cydymdeimlwyd â Gwyneth Jones ac Eryl Roberts yn dilyn profedigach, a llongyfarchwyd Delyth Williams ar enedigach w'r bach, Huw Lewis.

Cyhoeddwyd Cwrs undydd ar ddydd Sadwrn, Hydref 17 yn

Nhregarth, wedi ei drefnu gan Bwyllgor Celf a Chrefft (Arfon). Diolchodd y llywydd i bawb a fu'n casglu er budd Sefydliad y Galon, cyfanswm casgliad yr ardal am eleni oedd £415.06.

Parti Boncathod o ardal Dyffryn Ogwen oedd yn diddanu, sef parti o ferched sydd yn hoffi dod at ei gilydd i gymdeithasu a chanu. Cyflwynwyd rhaglen o ganeuon gwerin o wahanol ardaloedd yng Nghymru yn ogystal ac un gân o Ffrainc. Roedd y cwbl yn cael eu canu yn ddigysfeiliant, ac ychwanegwyd at y cyflwyniad gyda hanes cefndirol i nifer o'r caneuon.

Diolchwyd iddynt am noson hyfryd gan Deilwen Hughes. Bu i bawb wedyn fwynhau lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan y Pwyllgor. Enillwyr y raffl oedd Nancy Williams a Beti Owen.

EISTEDDFOD BENTREF. Cynhaliwyd noson goffi lwyddiannus iawn yn y neuadd goffa er budd yr Eisteddfod leol a derbyniwyd £253. Enillwyd nifer fawr wobrau raffl a Lois Llwyd Jones oedd enillydd 'enwi'r gath'. Diolch i bawb ddaeth draw i gefnogi, cyfrannu at y stondinau, y raffl ac hefyd y rhoddion ariannol. Diolch i holl aelodau'r pwyllgor am y trefniadau trylwyr. Os oes unrhyw blentyn heb roi ei enw ar gyfer partion, cysylltwch â Rita Williams ar 670601 (oed cynradd) neu Deilwen Hughes (670517). Ni chaniateir i neb ymuno â'r partion ar ôl Hydref 5ed. Mae testunau'r Eisteddfod ar gael yn y Swyddfa Post.

Bydd y Noson Ddawns yn cael ei chynnal nos Fawrth, Tachwedd y 3ydd am 6 o'r gloch yn y neuadd goffa. Y beirniad fydd Gwawr Hughes, Amlwch. Rhaid rhoi enwau i Sian Harries (671430) erbyn nos Wener Hydref 30ain os am gystadlu fel unigolyn neu mewn grwpiau.

Bydd yr Eisteddfod yn cael ei chynnal brynhawn a nos Sadwrn, Tachwedd y 7fed am 1.00 a 6.30. Y Beirniad Cerdd fydd Huw Foulkes, Caerdydd, y Beirniad Llefaru fydd Tammi Gwyn, Llanrug, a'r Celf yng

ngofal Nia Hughes, Rhosgadfan. Mae'r cyfansoddiadau llên uwchradd a'r ddwy gystadleuaeth sydd yn agored i fod yn llaw yr ysgrifenyddes, dan ffug enw, cyn 5.00 o'r gloch Hydref 31ain, ynghyd ag enw a chyfeiriad yr ymgeisydd mewn amlen wedi ei selio.

Os oes unrhyw un yn dymuno cyfrannu'n ariannol at yr eisteddfod, a fyddwch mor garedig a chysylltu gyda Rita Williams, 4 Tan y Cae neu Gwyneth Jones, Llys Y Gwynt, Llanddeiniolen

NEUADD GOFFA. A oes gennych chi ddiddordeb yn y Neuadd? A oes gennych chi syniadau ynglŷn â sut i'w datblygu? Cynhelir cyfarfod cyhoeddus yn y Neuadd nos Fercher 14 Hydref am 7.30. Croeso i bawb sydd â diddordeb yn nyfodol y Neuadd.

CLWB 200 Y NEUADD. Enillwyr Ebrill: £40: (170) Val Jones, Waun Deg, Saron; £20: (144) Jean Williams, Penlon; £10: (140) Evan Owen, Wern Las.

Mai: £40: (28) A Lewis, 48 Bro Eglwys; £20: (165) Iola Jones, 22 Y Ddôl; £10: (62) Menna Coles, Maes yr Haf.

Mehefin: £40: (145) Albert Hughes, 34 Bro Rhos; £20: (95) Ann Lloyd Jones, 8 Penrhos; £10: (36) Wendy ac Alun Efans, Bigil.

Gorffennaf: £40 (83) Collwyn Williams, 4 Tan y Cae; £20: (18) Sulwen Thomas, 1 Stad Eryri; £10: (43) Oscar a Mary Evans, 3 Bro Eglwys.

DYMUNA Mair, Myfanwy, Aneurin, Helen a Myfyr ddatgan eu diolch diffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid arbennig iawn, sef Goronwy Wyn Jones, Cilan, Tanycae. Diolch am y gofal a'r gefnogaeth a dderbyniwyd yn ystod ei waeledd ac yn arbennig i staff Ward Peblig, Ysbyty Eryri, am y gofal a dderbyniodd yn ystod ei wythnosau olaf. Diolch i'r Parchedigion Marcus Robinson, R. E. Hughes a Harri Parri am eu gwasanaeth cysurion ac i Mrs Glenys Griffith am ei gwasanaeth wrth yr organ. Diolch hefyd i'r ymgymerwr, Dylan Griffiths, am ei gefnogaeth a'r trefniadau trylwyr. Casglwyd £1,600 i'w rhannu rhwng elusennau a mudiadau lleol a oedd yn rhan annatod o'i fywyd. Diolch yn fawr iawn i bawb.

DYMUNA Ceris W. Williams, Tan y Cae, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl ymweliadau, cardiau, blodau a galwadau ffôn yn dilyn ei llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ôl ym mis Gorffennaf.



Er cof am Goronwy Wyn Jones, Cilan, Bethel a hunodd Awst 28, 2009

O'r ynys daeth i'n bryniau 'i warchod praidd a'r haidd i'w hau.

Yn Tŷ Mawr, hafoty mêl oedd erwau luniodd orwel. Yn nhŷ y Gair caed Fair fwyn i gynnal hyder gwanwyn.

O arw bonciau'r chwarel, ar y beic i gicio'r bêl; i'n bro, i'w gwerthoedd barhau un garw mewn pwyllgorau. âi ar rownds at glwyfus rai, atynt i'r llu ysbytai. Hwn y pair, trosglwyddydd paill rhoes oriau, mynd dros eraill.

Hawliodd gornel ar Suliau – i warchod heb orchest hen eiriau W'r y Pren, er cur prinbau a heddw mewn Duw sy'n maddau.

Un dilyw iddo'n dyled, – am hynny ameniwn adduned yn gryf, gwiredwn ei gred, cymwynas yw cymuned.

Adref, y gŵr di-rodres yn ei breim mewn 'bib a brace'. Ar aelwyd ei dreialon yn y mêr o hyd roedd Môn. O gariad tlawd fagwraeth i Mair a theulu, rhoed maeth.

Daw Awst fel lleidr distaw yn ei li i gydio'i law, i'w hebrwng hyd hen lwybrau yn ei ffydd heb ofni'r ffau. Galw wnaeth un gaeth i gur, un distaw yn ei dostur. Yng nghôl pridd Llanddeiniolen i was bach daw cwys i ben.

RICHARD LLWYD JONES

Mae'n rhaid i mi starad hefo rhywun



Y SAMARIAID
(01248) 674985

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

ORIAU AGOR

6 a.m. - 7.30 p.m.
(Llun - Sadwrn)
6 a.m. - 3 p.m. (Sul)



Grŵp Dawnsio Bethel a ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth dawnsio disgo yn Eisteddfod Genedlaethol Y Bala eleni.

DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd. Ffôn: (872133)

DIOLCHIADAU. Dymuna Kenneth, Rhiannon, Donna, Karen a Tracey, Nant y Glyn, a theulu y ddiweddar Phyllis Evans, 5 Stryd Newydd, Deiniolen, ddiolch yn ddiffuant i'w pherthnasau, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt ar golli mam, nain a mam yng nghyfraith annwyl iawn, a fu farw mor annisgwyl o sydyn.

Diolch i'r Parchedig John Pritchard am ei wasanaeth ddydd yr angladd ac hefyd i Gwynfor Jones am ei wasanaeth parchus a thrylwyr.

Diolch yn fawr iawn am y rhoddion hael a gasglwyd tuag at uwchraddio Capel Ebeneser, Deiniolen a Menter Fachwen.

C Y M D E I T H A S CYFEILLION EGLWYS CRIST,

LLANDINORWIG

Cyflwynodd y Parchedig Robert Townsend, Mrs Gwen Jones o Lanrug, y wraig wadd yng nghyfarfod cyntaf y tymor. Siaradodd Gwen am wraig arbennig yn ein bro, yn enwedig felly i bentref Llanberis, sef ei mam, Mrs Dilys Baylis ac roedd ôl gwaith ymchwil manwl i hanes y teulu yn ei sgwrs. Amser o galedi ac o dlodi, amser o weithio'n galed er mwyn cynnal teuluoedd, ac amser o afiechyd pan oedd meddyginiaethau yn brin. Yn amlwg mae Mrs Dilys Baylis wedi profi'r cyfnodau yma, fel llawer o deuluoedd ein bro, ac wedi goroesi'r anawsterau drwy ei bywyd. Ac yn amlwg drwy y cyfan, roedd y gymdeithas a chymdogacth a chymwynasau yn bwysig iawn i drigolion yr ardal.

Diolchwyd i Gwen, gan Mr Brian Price, am rannu â ni brofiadau ei mam, ac am ein hatgoffa o'n gorffennol. Croeso i bawb ymuno â ni yn y cyfarfodydd hyn.

EISTEDDFOD GADEIRIOL DEINIOLEN A'R CYLCH. Cynhelir yr Eisteddfod ar 7 Tachwedd. Mae y cystadlaethau dan 12 oed yn gyfyngedig i blant Deiniolen ac Ysgol Gwaun Gynfia, ac mae'r darnau adrodd a chanu i'w cael yn yr ysgol.

Mae hyfforddiant ar gael gan aelodau o'r pwyllgor a bydd ymarferion partion ac unigolion yn cael eu trefnu yn fuan. Cysylltwch â Hilda Parry am fwy o wybodaeth ar (01286) 872615.

Dewch yn llw i gefnogi.

DYMUNIADAU DA. Estynnwn ein dymuniadau gorau i Mr Gwilym Lloyd Williams, Rhes Fictoria, sydd wedi symud o'r pentref i fyw at ei ferch ar Ynys Môn. Peidiwch â bod yn ddieithr, Gwilym.

CYDYMDEIMLWN yn ddwys â theulu'r ddiweddar Mrs Phyllis Evans, Stryd Newydd, yn eu profedigaeth o golli mam, nain, modryb a chwaer annwyl. **HOFFAI** Margaret Ellen, Hafan, Porth y Gogledd, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, blodau, arian a'r galwadau ffôn a dderbyniodd ar ôl triniaeth am ben glin newydd. Diolch yn fawr i bawb.

TATWS AR WERTH

(SYTH O'R FFERM)

Bagiau 25kilo
Ffoniwch HUW
07785522898



Teyrnged i'r diweddar Edwin Lloyd Evans, gynt o Gallt y Foel a fu farw ar ddechrau mis Medi eleni.

'Edwin Sacr' fu Edwin i bawb o'i gyfoedion, hynny oherwydd ei fod yn fab i John Evans, saer cymuned ardal Deiniolen a thu hwnt am flynyddoedd lawer. Canu a diddanu fu'r cwlwm cydiol i mi ddod i nabod Edwin, ac yn sgil hynny yn meithrin cyfeillgarwch dros flynyddoedd, hyd nes iddo ymadael â Gallt y Foel i Benmaenmawr.

Buom yn cyd-ddiddanu'r ymwelwyr yng ngwesty'r Victoria yn Llanberis tros fisoedd yr haf, ynghyd â thalent ganmoladwy teulu Tŷ'r Ysgol, Dinorwig. Bryd hynny, a hithau ar y cychwyn yn hogan ysgol, Annette Bryn Parri, fyddai'n cyfeilio i gyflwyniad Edwin fel unawdydd ac yn y ddeuawd gyda'i thad, Ifan Bryn. Yna cyd-ddiddanu gyda Pharti Eryri am bron i ddeng mlynedd.

Am ryw reswm, tueddu i newid ei ddiddordebau fyddai Edwin. Bu'n bysgotwr ar y Fenai a'i gwch ei hun, yn golffiwr, yn beilot ar ei awyren ei hun, a threuliais i, fel eraill, oriau yn ei gwmni yn hedfan awyren (model) uwch erwau gruglawn Mynydd Llandygai.

Roedd ganddo lais hawdd gwrando arno ac nid syndod oedd deall iddo gael cyfweiliad

llwyddianus gyda Chwmni Opera Cenedlaethol Cymru, ond gwrthod y cyfle fu ei hanes, gan gario ymlaen i weithio i B.T.

Cyfansoddais eiriau Cymraeg iddo i gerdd boblogaidd Louis Armstrong, 'What a wonderful world', a rhoddodd fwynhad i lu o gynulleidfaoedd, yn enwedig felly fel aelod o'r parti talentog hwnnw, nad yw yn anffodus yn bodoli mwyach, sef Parti Eryri. Ond rywsut ni allaf lai na theimlo na chafodd Edwin ei hun 'y wonderful world' y carai yn ei fywyd.

Cymeriad gweddol dawel oedd Edwin, 'does gen i ddim cof ohono yn colli ei dymer na chodi ei lais, gŵr yn barod ei gymwynas. Mae yn wir na fu ei iechyd yn dderbyniol yn ddiweddar a sioc i lu o'i gyfeillion oedd clywed am ei farwolaeth.

Yn anffodus, oherwydd ymrwymiad blaenorol, methais a phresenoli fy hun yn yr arwyl, ond erys atgofion melys, hwyliog, bythgofiadwy amdano.

Diolch am gael ei adnabod ac am lu o atgofion i'w trysori. Mae ein cydymdeimlad fel cyn aelodau o Barti Eryri gyda'r teulu yn eu profedigaeth.

Heddwch i'w lwch.

ROL WILLIAMS

ARVONIA

CUMMULUS cpt

- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.



- Adran teithiau grwp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126

E-bost: info@arvon.co.uk • Gwefan: www.arvon.co.uk

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar
- Cinio Dydd Sul

THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS

with droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis (0)870 832 9903

CHWILOTA

YMWELIAD WYTHNOS Â LLANBERIS 1912



Teitl y llyfr sydd ym meddiant Arwyn Roberts o Lanrug yw *A Week's Work in Wales*, sef hanes ymweliad wythnos â Llanberis a'r cylch yn ystod yr ail wythnos ym mis Mehefin 1912. Ar y flaen ddalen ceir yr enw Anne Robinson (Major). Mae'n amlwg mai deunaw o fyfyrwyr o ardal Crewe oedd y rhai fu'n mynychu'r cwrs wythnos (efallai o Goleg Alsager), oherwydd mae eu siwrnai yn cychwyn ar y trê'n o'r dref honno. Nodir fod Miss Smith a Mr Davies eisoes wedi cyrraedd Llanberis o'u blaenau, ac yno yn eu disgwyl.

Ar ôl cyrraedd Cyffordd Llandudno y sylweddolodd y criw eu bod yng Nghymru, gan fod staff y rheilffordd a'r mwyafrif o'r teithwyr yn siarad Cymraeg. Roedd yn nos Sadwrn arnynt yn cyrraedd Llanberis, ac ychydig o amser a gafwyd yn crwydro o amgylch y gwesty a'r castell. Rhaid disgwyl hyd ddydd Mawrth cyn y cawn wybod mai yn Glan Eilian roedd y cwmni yn aros.

Fore Sul aeth pawb am dro drwy'r pentref, gan edmygu'r gerddi ar hyd y brif stryd. Yna, ceir y disgrifiad â ganlyn: *'we saw baskets on wires going to the mines. Still we went on almost to the marsh, then we thought we had better retrace our steps...'* Beth tybed oedd y 'baskets on wires'? Rwy'n amau mai'r bwcedi yn cario mwyn haearn ar weiar rôp o Fetws Garmon oeddynt, ac mai yng nghyffiniau Llyn Wil Boots roedd y gors.

Cawsant wasanaeth Cymraeg yn eglwys Llanberis - a'i fwynhau, cyn dilyn y llwybr am y Ceunant Mawr. Ceir disgrifiad manwl o'r rhacadr ac o'r creigiau o amgylch, ac y mae'r disgrifiadau eraill cyffelyb yn y llyfr yn awgrymu mai myfyrwyr daearyddiaeth neu ddaeareg oedd y deunaw.

Ar y nos Sul bu'r cwmni yn gwrando ymarfer canu ar gyfer yr cistceddfod yng Nghaernarfon.

Fore dydd Llun, er gwaethaf y glaw, cafwyd ymweliad â Chwarel Dinorwig, gyda 'guide' yn eu tywys o amgylch ac yn egluro'r hyn oedd yn digwydd yng ngwahanol rannau'r gwaith. Ceir y wybodaeth fod cyflogau'r chwarcwyr yn cyrraedd uchafswm o £6 y mis, a bod bil cyflogau'r chwarel tua £12,000 y mis. Treuliwyd diwrnod cyfan



yn y chwarel - yn y glaw!

Ymweliad â Bwlch Llanberis oedd yn eu disgwyl ar y dydd Mawrth, a cheir disgrifiadau manwl o'r dirwedd ac o'r mathau gwahanol o greigiau a welwyd, gan gynnwys dehongliad o effeithiau rhew ar y dyffryn. Mae'n amlwg fod rhywun cyfarwydd â'r ardal gyda hwy, oherwydd ceir enwau cywir ganddynt am rai o'r nodweddion ffisegol --Ystol Felen, er enghraifft. Cerddwyd mor uchel â'r Gromlech, ac yno, bu casglu diwyd ar blanhigion a rhedyn. Yn Saesneg, wrth gwrs, y mae'r rhain yn cael eu henwi: butterwort, marsh violet a sundew. Sonia hefyd am spotted orchid. Wedi dychwelyd i Glan Eilian bu'n rhaid gwasgu'r cyfan i'w cadw'n ddiogel.

Taith i gopa'r Wyddfa oedd ddydd Mercher, a rhaid oedd cofnodi amser, uchder, mathau o lystyfiant, math o fywyd gwyllt a mathau o greigiau ar y daith i fyny. Erbyn cyrraedd Hebron roeddynt eisoes wedi gweld nifer o wahanol adar, a chlywed sigl-di-gwt yn canu. Erbyn pont hanner ffordd roedd chedydd wedi ei weld. Er iddynt gychwyn am chwarter wedi naw yn y bore, roedd hi bron yn hanner dydd arnynt yn



Yr Hen Dŷ Du, eiddo'r Esgob Goodman gynt.

cyrraedd hanner ffordd. Dri chwarter awr yn ddiweddarach maent yn cyrraedd lle sy'n cael ei alw ganddynt yn *'ice cream spring'*. Ai hon tybed yw'r ffynnon ar Allt Moses? Ond yna, daw'r *'upper spring'* - heb fawr ddim tyfiant, a llawer o gerrig noeth yn brigo i'r wyneb. Am hanner awr wedi dau, cyrraedd y copa, a chael y planhigion a ganlyn yno: mwsogl a chen, saxifrage a kidney leaved sorrel. Yna, ceir tudalennau o ddisgrifiadau ar sut y ffurfiwyd y mynydd a'r golygfeydd sydd i'w gweld o'r copa. Ceir ganddi hefyd ddisgrifiadau gan wahanol bobl o'r Wyddfa mewn tymhorau gwahanol. Roedd yn chwarter i saith yr hwyr arnynt yn dychwelyd i Glan Eilian.

Treuliwyd y dydd Iau yn gwneud gwaith maes - mesur cae a thynnu cynllun ohono i raddfa; a mesur uchder y bryncyn lle saif Castell Dolbadarn.

Mae'n ymddangos mai i'r tir corslyd rhwng Penllyn a Llyn Bogelyn yng Nghwm y Glo yr aeth y cwmni ar y dydd Gwener, a hynny i archwilio'r planhigion. Casglwyd enghreifftiau o bob un, gan eu gwasgu a'u cadw'n ofalus ar gyfer eu hastudio. Dyma restr o'r holl blanhigion a ddarganfuwyd:

1. Yn y dŵr - water buttercup, Elodia, Marsh marigold, water soldier, reed grass, water lily,

bog bean, plantain, pond weed, valisneria a horse-tails.

2. Ar y gors - marsh potentilla, sedges, spearwort, rush, bog bean, horse mint, milkwort, spotted orchid, meadow sweet, marsh lousewort, heather, bugle, tormentil, brookwort, brooklime, cotton grass, buttercup, butterwort, sundew, sphagnum, ragwort, marsh violet a strawberry.

Mae hefyd yn nodi y llwyni a'r coed a welwyd:- willow saffron, sweet gale, bedwen arian, guelder rose, banadl, crafolen, cyll, llus, woodruff, creeping willow, eithin a gwern.

Yn y prynhawn, aethpwyd i weld Tŷ Du - ac fel y mae'r llun yn dangos, roedd yr hen dŷ yn gyfan bryd hynny, ond yn dechrau dadfeilio yn ôl y disgrifiad.

Ar y dydd Sadwrn talwyd ymweliad â llain goediog, ond heb ei lleoli. Yn dilyn, bu'r cwmni yn gwyllo mwyn haearn yn cael ei lwytho o bwcedi i dryciau trê'n. Dywedwyd fod hwn y mwyn haearn gorau yn y byd ar ôl haearn Sbaen a Sweden. Câr cyfan ei anfon ar y trê'n i Wolverhampton i'r gweithfeydd dur yno. Erbyn diwedd y bore roeddynt wedi casglu amryw enghreifftiau o ddail gwahanol goed, ac wedi eu cadw gyda'r holl blanhigion a gasglwyd.

Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrraeddych Mewn Steil Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

Blodau Racca

(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: 870605

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON
YW BLODAU

Am ddau o'r gloch y pnawn, gadael Glan Eilian i ddal y trên yn ôl am Loegr.

Tybed a wnaeth unrhyw un ohonynt ddychwelyd i Lanberis ar ôl gorffen eu cwrs fel myfyrwyr?

I'r darllenwyr sy'n arbenigo mewn enwau planhigion, rhowch wybod beth yw'r enwau Cymraeg am y rhai a restrwyd uchod, ond yn bwysicach, rhowch wybod a ydynt yn parhau i'w cael yn yr ardal heddiw.

Llawer o ddiolch i Arwyn am gael benthycu llyfr mor ddiddorol.

Cymanfa Ganu - Ffrainc 1918
Gan Mrs Enid Jones, Talysarn (Y Fachwen gynt) y cefais fenthycu y rhaglen o gymanfa ganu a gynhaliwyd yn Ffrainc, ddydd Nadolig 1918. Dywed fod ei thad wedi bod yn bresennol yn y Gymanfa, a bod un o'r cyfeilwyr, sef Brwynog Jones yn hanu o Lanberis.

Cynhaliwyd y gymanfa yn Neuadd M. Hénau, Dyffryn Dedwydd, sef Rinxent-Marquise, rhyw ddeuddeg milltir o Calais.

Yn ogystal â chanu emynau, cafwyd hefyd adroddiad, unawd a thriawd gan wahanol aelodau o'r fyddin. Mae'n amlwg mai aelodau o wahanol gatradau oedd yn cymryd rhan yn yr holl weithgareddau ynglŷn â'r gymanfa, ar wahân i Mr Parri Williams (yr unig un sy'n cael ei

alw felly) o'r YMCA.

Tybed oes mwy o wybodaeth am y gymanfa hon, ac a oedd milwyr eraill o fro'r 'Eco' yn bresennol?

Simdda Siôn

Addewais yn y rhifyn diwethaf roi lleoliad Simdda Siôn - 'rhywle ar lethrau'r Wyddfa'. Wel, gwn bellach mai uwchben Nant Peris y mae, yn y Cwm Glas bach. Defnyddir y term 'simdda' neu 'gwter' yn aml am hollt neu agen yn y clogwyni. Yn aml mae dŵr neu nant yn llifo drwyddynt. Yr hyn sy'n gwneud Simdda Siôn yn arbennig yw'r ffaith ei bod, ar dywydd o wynt croes, yn ymddangos yn union fel pe bai'r dŵr yn llifo i fyny'r clogwyn yn hytrach na dymchwel ar i lawr!

Dyna sialens i ffotograffwyr y fro felly. Ceisiwch gael llun o'r dŵr yn Simdda Siôn yn llifo ar i fyny.

Pwy oedd.....?

Ac i barhau ar thema y mis diwethaf, dyma gais am fwy o wybodaeth am Owen H. Jones, genedigol o Gwm y Glo. Bu'n chwaelwr, a threuliodd ddeng mlynedd ar hugain yn America cyn dychwelyd i Gymru tua dechrau'r 1950'au. Roedd yn arddel yr enw barddol Cwm Myfyr, a bu'n Archdderwydd Gorsedd Beirdd Efrog Newydd am flynyddoedd. Arweinydd cymanfaoedd a chyfansoddwr llawer tŷn ac unawd. Mae'n bosibl fod ganddo gysylltiadau â Nant Peris hefyd. Roedd yn fyw ar ddechrau'r 1960'au.

Hanes Diweddar

Mae tuedd i feddwl am hanes fel rhywbeth sy'n croniclo hen hen ddigwyddiadau. Ond beth am hanes diweddar? Cofio Cau Chwael Dinorwig wnaeth i mi sylweddoli cymaint o newid sydd wedi digwydd o fewn y fro ers hynny, ac yn enwedig ers diwedd yr Ail Ryfel Byd. Mae'n anodd credu faint o wahanol ddatblygiadau sydd wedi digwydd, pe bai ond yn y cartref yn unig. Pwy yn eich stryd chi gafodd y cwpwrdd rhew cyntaf? Neu beiriant sychu dillad? Neu Bopty ping? Neu deledu du a gwyn?

CERIS JONES

Teglan, Stâd Talybont

LLANRUG
677362

neu symudol

07979
620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol



ORIEL
CWM
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwireiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

Perchnogion Newydd!

yn parhau'r traddodiad gwych

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Vr ŵyn lleol mwyaf blasus.

Selseig cartref

Gigedd parod i'w bwyta
Archiebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

RAGLEN	
GYMANFA GANU	
A GYNHELIR YN	
Neuadd M. HÉNAUX, 'RDyffryn Dedwydd	
✱ RINXENT-MARQUISE. Ffrainc	
Boreu Dydd Nadolig Rhagfyr 25 ain. 1918	
Dechreuir am 10 O'r Gloch	
PWYLLGOR	
LLYWYDD	Lt. J. Roberts. R. E. (326 th Q. Co)
IS-LLYWYDD	Mr Parri-Williams. (Y. M. C. A.)
ARWEINNYDD CERDDOROL	L. Cpl. W. H. Jones (320 th Q. Co)
CYFEILWYR	✱ Cpl. Brwynog Jones L. Cpl. H. Bott. (328 Q. Co)
Sgt. J. Roberts 326. Q. Co.	Spr. L. Jones. 320 th Q. Co
Cpl. D. O. Williams. 320 Q. Co.	« S. Thomas. 323 «
L. Cpl. D. Roberts 326 Q. Co.	« M. Williams 326 «
« C. Sloane 326 «	« D. Jones 328 «
« C. Hobbin 328 «	« R. Griffiths 348 «
YSGRIFENYDD.	Sgt. J. T. Owen. 320 th Q. Co

Pwy oedd y cyntaf yn eich pentref i fynd ar wyliau dramor gyda 'package holiday'? Pa siop yn yr ardal oedd y gyntaf i gael rhewgell i gadw bwyd? Oes cof am y 'fish fingers' cyntaf?

Pa fwyty Indiaidd neu Chinaidd oedd y cyntaf yn y fro?

A rhyw ddiwrnod, efallai y bydd rhywun yn holi pwy gafodd y cwt haul

('conservatory') cyntaf yn sownd yn eu tŷ.

Ystyriwch, meddyliwch, cofiwch!

A rhowch wybod i mi am unrhyw un o'r rhain, neu am agwedd arall o hanes y fro.

Anfonwch at Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffôn: 01286 673515.

E. W. Pritchard

CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI
CELTIC WINDOWS

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CVFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



O SIAMBAR SELWYN

Ar daith i Aberteifi yr oedd ni, i gyfarfod yng Nghapel y Tabernacl i ddiolch am fywyd y Prifardd Archdderwydd Dic yr Hendre. Pedwar ohonom oedd yn y car a fy ffrind, Geraint Lloyd Owen, oedd y gyrrwr. Wrth ei ochr roedd yna Geraint arall, sef y Prifardd a'r Cyn-Archdderwydd Geraint Bowen - gŵr ifanc 94 mlwydd oed a'i gof yn rhyfeddol. Yn y sedd gefn yn mwynhau y sgwrsio rhwng y ddau Geraint yr oedd y Prifardd a'r Prif Lenor John Griffith Jones a minnau.

Mae gen i ffydd yn Geraint Lloyd Owen fel gyrrwr ac rydw i wedi bod yn ei gwmni droeon. O ydi, mae o'n hoff iawn o 'roi ei droed i lawr', ac mi wn i am un neu ddau a gafodd gryn fraw o gyd-deithio gydag o. Bu Geraint a finnau a'n gwragedd unwaith yn cynrychioli Gorsedd y Beirdd yng Nghernyw yn yr Wyl flynyddol. Do, fe ddaethom adref yr holl ffordd o Gernyw i Gaernarfon maen llai o amser na fyddwn i wedi ei gymeryd i fynd o Gaernarfon i Gaerdydd. Roedd y merched yn y sedd gefn yn dawel iawn ar y daith honno.

Ond, ar y daith i Aberteifi, roedd Geraint yn gyrru yn hamddenol iawn. Roedd o wedi sylweddoli, medda fo, bod rhaid iddo fod yn ofalus o safbwynt insiwrans, hefo dau gyn-Archdderwydd a Phrifardd a oedd hefyd yn Brif Lenor ac yn enillydd y Fedal Ddrama, o dal ei ofal. Chwarae teg iddo am fod

mor ofalus o dri hen ŵr.

Roedd John Griffith Jones a minnau yn mwynhau gwrnado ar sgwrsio y ddau Geraint a'r wybodaeth hanesyddol, lenyddol a daearyddol a gafwyd o wrando ar y Prifardd Geraint yn dwyn i gof ei gysylltiad â rhai o'r llefydd ar y daith.

Fel yr eglurais, mynd i gyfarfod i goffau yr Archdderwydd Dic yr Hendre yr oeddem. Fel gofir Dic yn bennaf am ei ddwy Awdl: 'Y Cynhaeaf a'r 'Gwanwyn'. Dwy Awdl na fedrai neb ond ffermwr eu cyfansoddi. Dwy Awdl â blas y pridd arnynt a phrofiad personol yr awdur yn llifo drwyddynt. Fe gyfeiriodd Geraint Lloyd Owen at y ffaith i Geraint Bowen hefyd gyfansoddi un o'r Awdlau gorau a gadeiriwyd yn y Brifwyl, sef 'Awdl Foliant i'r Amaethwr' a enillodd Gadair Aberpennar iddo yn 1946. Oedd, roedd o'n gyd-ddigwyddiad bod awdur yr Awdl yn cyd-deithio gyda ni i goffau awdur y ddwy Awdl arall ar yr un thema.

'Faint gymerodd hi ichi gyfansoddi'r Awdl?'

'Tair wythnos,' oedd yr ateb. Do, fe'n syfrdanwyd ac fe gawsom ni dipyn o hanes y Cadeirio. Yn yr un Eisteddfod fe goronwyd Rhydwen Williams, ac roedd yna ddyns bach o Lundain yn bresennol yn y Coroni. Roedd hi wedi mynd adref, fodd bynnag, cyn y Cadeirio ddydd Iau, ac rwy'n

siŵr fod awdur 'Awdl Foliant i'r Amaethwr' yn fwy na balch fod Lisabeth o Windsor wedi diflannu.

Fe gafwyd trafodaeth a barn ar sawl pwnc yn ystod y daith a bu John, Geraint a minnau, yn naturiol, yn trafod cryn dipyn ar hynt a helynt y bêl-droed. Doedd gan y Cyn-Archdderwydd ddim cyfraniad i'r pwnc hwnnw ond fe'n hatgoffwyd ganddo nad oedden ni wedi sôn yr un gair am rygbi. Ac fe gawsom dipyn o sylwadau

ganddo am gêm y bêl hirgron ac ychydig o atgofion am Lanelli.

Do, fe gawsom daith ddiddorol a sgwrsio difyr a chafwyd gwasanaeth hwyliog a theilwng i un o'n beirdd mwyaf dawnus. Gwasanaeth y byddai Dic wedi ei fwynhau, rwy'n sicr.

Ar y ffordd adref, troi i mewn i'r fynwent yn Blaenannerch a sefyll ennyd uwch ei fedd, Dic yr Hendre, Archdderwydd Cymru.

Diolch amdano. Heddwch i'w lwch.

DINORWIG

MMarian Jones. Ffôn: (01286) 870291

LLONGYFARCHIADAU. Yr ydym fel ardal yn llongyfarch Jason, 5 Maes Eilian, ar ennill gradd BA 2.1 gyda anrhydedd ym Mhrifysgol Bangor. Da iawn, Jason. Pob bendith a iechyd i'r dyfodol.

DIOLCH. Dymuna Mr a Mrs Andrew Griffith, Tan y Bwlch, ddiolch yn fawr i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd a'r dymuniadau da i Andrew ar achlysur ei ben-blwydd yn 94 oed, ac hefyd i Alice pan oedd hithau yn cwyno cryn dipyn yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn i bawb.

BABI NEWYDD. Croeso i Grace Jones i 5 Maes Eilian,

merch fach i Esther a Jason, chwaer fach i'w phum chwaer ac i'w brawd. Fe fydd ganddi ddigon o nyrsys i ofalu amdani. Pob lwc, bendith ac iechyd iddynt i gyd fel teulu.

YN YR YSBYTY. Drwg gennym ddeall fod Mrs Margaret Faulkener, Fron Dirion, wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Dymunwn adferiad iechyd llwyr a buan iddi ac y bydd adref yn reit fuan. Brysiwch wella, Margaret

DAMWAIN. Drwg gennym fod Jason, 5 Maes Eilian, wedi cael damwain tra wrth ei waith. Dymunwn wellhad llwyr a buan iddo.

BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



www.bwrdd-yr-iaith.org.uk



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286**

672076 i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell,
Caernarfon, LL55 1SE

neu

ebost: williamsgw@parliament.uk

Mae pobl dros 50 oed yn ymddiried yng nghynhyrchion a gwasanaethau Age Concern

Yswiriant Cartref

Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur

Yswiriant Teithio

Cynllunio Angladd

Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:

Age Concern Gwynedd a Môn
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

gan ddyfynnu'r cyfeirnod: Eco'r Wyddfa

AGE
Concern

Os byddwch yn cysylltu â chynhyrchion Age Concern, byddwch yn ymwneud â chymryd rhan yn ymgyddwngedig o Age Concern Enterprises Limited (ACEnt). Mae ACent wedi ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Arianol (FSA) ar gyfer cyfyngiad yswiriant. Mae'r Age Concern uchod yn elusen gofrestrddig.

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i gwisgo am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestrddig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

UN FUNUD FACH

Y GRAS I DDIOLCH

Beth am gêm fach y tro hwn? Mi rôf fi air i chi, ac fe gewch chitha roi gair arall sy'n gysylltiedig ag o. Er enghraifft, cwpan... soser; ysgol... plant; capel... eglwys.

Dyma'ch gair chi felly... 'diolchgarwch'.

Pa air ddaeth i'ch meddwl chi? Diwrnod? Tymor? Gŵyl? Gwasanaeth? Bwyd?

Dyna'r math o eiriau y byddai'r mwyafrif ohonom yn eu cysylltu â 'diolchgarwch'. O glywed y gair, fe feddylwn ni ar unwaith am y cyfarfodydd arbennig a gynhelir bob blwyddyn i ddiolch am ffrwyth y cynhaeaf.

Ond gair arall y gellid ei gydio wrth y gair 'diolchgarwch' yw 'agwedd'. Nid dyna'r gair cyntaf a ddeuai i'r meddwl, wrth gwrs. Ond mae'n air da, er hynny. A dweud y gwir, mae'n anodd meddwl am well gair. Onid agwedd yw diolchgarwch? Yn fwy na dim, ffordd o feddwl ac o ymagwedd yw diolchgarwch.

Mae'r Diolchgarwch wedi newid yn arw. Ac eto, daliwn i gadw'r ŵyl yn ein capeli a'n heglwys. Bydd ein haelodau a'n hysgolion Sul yn cynnal eu

hoedfaon eto eleni, a da hynny. Pa ffurf bynnag fydd i'r ŵyl y mis Hydref hwn, does ond gobeithio y bydd Duw'n gofalu mai agwedd fydd y diolchgarwch i ni. Mewn gwirionedd, hynny fydd yn sicrhau bod yr ŵyl a'i hoedfaon yn dod â chlod i'r Arglwydd. Os nad oes ynom agwedd neu ysbryd o ddiolchgarwch, mae ein haddoliad yn wag ac annigonol.

O gael yr agwedd hon o ddiolch, bydd yn 'ddiolchgarwch' bob dydd o'r flwyddyn i ni. Felly y dylai fod, wrth gwrs, a ninnau bob dydd yn ymwybodol o ofal Duw ac yn rhoi ein diolch iddo. 'Ym mhob dim, rhowch ddiolch', meddai'r Beibl wrthym (1 Thesalonaiad 8:18). Ond ni ddaw hynny'n rhwydd i ni. Mae'n anodd diolch pan fo pethau'n anodd ac yn galed a phan fo'n byd yn llawn problemau. (A bod yn gwbl onest, mae pechaduriaid fel ni'n cael trafferth i ddiolch pan fo popeth o'n plaid). Duw ei hun sy'n rhoi i ni'r gras i fod yn ddiolchgar iddo, ac i fynegi'r diolch hwnnw mewn geiriau a gweithrededd. Daw'r anogaeth hon i ddiolch yng nghanol anogaethau eraill i 'lawenhau bob amser' a 'gweddio'n ddi-baid', a 'pheidio â diffodd yr

Ysbryd Glân' na 'dirmygu proffwydoliaethau'. A hynny'n golygu mai trwy'r berthynas fyw â Duw y mae'r agwedd o ddiolchgarwch yn cael ei

meithrin a'i dyfnhau. Un o fendithion gras, ac nid tueddiad naturiol, yw diolchgarwch i Dduw. Diolch byth am hynny.

JOHN PRITCHARD



Ar Ben Arall y Lein

Prin iawn yw newyddion da ar y funud cyn belled ac y mae Llyn Padarn ac Afon Seiont yn y cwestiwn, fel sy'n amlwg i bawb sy'n taro golwg ar y dyfroedd, mae rhywbeth mawr o'i le.

Ar 28 Awst 09 fe ddaeth arbenigwr o Brifysgol Aberdeen i Lanberis i gyfarfod â'r Gymdeithas, gwnaed y trefniadau drwy 'Fish Legal'. Yn anffodus, ar ôl dadansoddi data sy'n gysylltiedig â'r broblem a chael golwg ar y dyfroedd, doedd ei sylwadau ddim y newyddion yr oeddwn yn disgwyl eu clywed. Yn fyr, y newyddion yw os na fydd yr arllwysion ffosffadau yn cael eu hatal yn gyfan gwbl, yna y rhagolygon yw y bydd Llyn Padarn wedi darford fel cartref i'r torgoch o fewn ychydig flynyddoedd. Y nesaf i ddiplannu fydd y brithyll, sewin a'r eog, a dyna ni.

Cefais gyfarfod ar 14 Medi gyda swyddogion o Asiantaeth yr Amgylchedd ac mae trefniadau ar y gweill yn ystod Rhagfyr i gasglu grawn y torgoch a'i symud i ddeorfa'r Asiantaeth yn Nolgellau i'w ddeori. Yna, gollwng y rhai bach – os bydd pethau yn iawn, i Lyn Arddu. Yr unig sylw sydd gennyf fi i hyn yw bod cryn sail felly i adroddiad y gŵr o Aberdeen, a bydd rhaid wynebu'r ffaith bod y torgoch am gael eu difa yn gyfan ym Mhadarn.

Ym mhle arall ym Mhrydain y buasai hyn yn cael llonydd i ddigwydd? Mynediad i Barc Cenedlaethol Eryri, heb os ardal hyfrytaf Cymru, a beth sydd ar ein trothwy – llygredd difrifol. A does neb yn codi llais ond y clwb pysgota – difrifol! Ond, os mai dyma be mae'r ardal yn ei ddymuno, sef byw mewn mangref llygreddig – pwy ydym ni fel pysgotwyr i ddadlau am hyn.

Rhaid cysidro hefyd, wrth gwrs, bod yr holl hawliau pysgota ar y llyn a'r afon yn awr yn werth dim. Pwy sydd am dalu am rywbeth nad yw'n bosib ei ddefnyddio? Rydym wedi gofyn i Gyngor Gwynedd a hefyd i Stad y Goron gysidro adalu y rhent sylweddol sy'n cael ei dalu gan y Gymdeithas am ddefnyddio eu hawliau. Dal i ddisgwyl ateb!

Un ergyd arall cyn ymadael â'r broblem yma – nid yn unig yn nalgylch Llanberis y mae problemau. Tra yng Nghaernarfon yn ddiweddar

roedd arogl, a dim perarogl, o gwmpas y dre. Es draw am y gwaith carthffos ar Ffordd Santes Helen ac roedd yr arllwysiad oddi yno yn – wel nid oes gair i'w ddisgrifio – dyna ble'r oedd tarddiad y drewdod. Cysylltais â'r Asiantaeth drwy fy ffôn symudol ar eu rhif argyfwng sef 0800 80 70 60, a'r ateb a gefais oedd

'Rydych wedi dod drwodd i'r Asiantaeth yn Lloegr. Rhaid ichi ffonio Cymru!' Ydi pawb yn dilyn? O'r diwedd fe gefais fy nhrosglwyddo i Gaerdydd.

'Mae'n ddrwg gennym,' oedd yr ateb yno, 'does neb yn siarad y Gymraeg yma.' A dwi'n dal i ddisgwyl ateb i fy nghwyn! Efallai y buaswn wedi cael mwy o synnwyr wrth ddal i siarad â'r ferch o Loegr!

Rŵan, cofiwch y rhif uchod, ac os gwelwch rywbeth sy'n eich pryderu ar ein dyfroedd, rhowch ganiad. Mae werth y pris i gael gweld sut mae ein Asiantaethau yn y Gymru gyfoes yn delio â chwynion y cyhoedd, yn enwedig os am ddefnyddio ein mam iaith.

Dyna'r cwyno drosodd, a dyma dipyn o newyddion da. Mae ein llynnoedd eraill wedi bod yn 'sgota yn eithriadol o dda, a'r defnydd o'r cychod yn arbennig. Mae Afon Gwyrfa i'w gweld yn gwella gyda nifer o cogiaid wedi eu bachu eleni. Clywais am un braf iawn i Kevin Morgan, Waunfawr. Efallai bod y pysgod yma'n teimlo nad ydi safon y Seiont ddim at eu dant ac yn dewis y Gwyrfa fel ail ddewis, cawn weld.

Mae nifer o adroddiadau yn dod i law fod rhwydo anghyfreithlon yng nghyffiniau'r Llyfni, efallai bod hyn yn gyfrifol am y rhediad siomedig o Sewin eleni. Clywais drwy'r sianeli fod yr Asiantaeth yma wedi medru cael gafael yn y rhai oedd yn gyfrifol.

Mae trefniadau wedi eu cytuno i gynllun casglu grawn eog am cleni. Os am gymryd rhan, yna mae'n rhaid cael eich cnwau yn fuan, ni fydd y cynllun yn weithredol ar benwythnosau.

Mis nesaf – wel, oes mae yma tipyn o newyddion da hefyd, ond dim lle y mis yma. Felly mis o siomedigaeth a'r mis ncsaf – mis o lawenydd, gobeithio neu mi fydd rhaid bwyta fy nghap 'sgota.

HUW PRICE HUGHES

DIOLCHGARWCH

Roedd popeth yn peidio i'r Ŵyl drwy'r fro, dim corn, dim saethu - dydd Llun fel dydd Sul. Gwrthgilwyr a saint yn troi ato Fo, Cynhaliwr bendithion bywydau cul. Yn nhw'r ymysgaroedd, ers oesau maith (cyn sefydlu'r Ŵyl yn Nhremeirchion bell) credid yng ngonestrwydd bywyd a gwaith a bod ysbryd y Creu – er gwaeth a gwell!

Pulpud a'r ffnestri fel orielau hardd yn aroglarthu cnydau 'leni' yn drwm, rhoddion tyddynnod llaw-i'r-gena-'gardd, salmau y diolch yn gor-doi y cwm....

John Tan'Graig – postman, ar ddeulin, a chwys ar ei dalcen, ar lein i'r Uchel Lys.

NORMAN CLOSS (FACH-WEN)

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser - Aneuryn Jones a'r staff

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

PRIODAS. Priodwyd Sharon Llewelyn, merch Edgar a Pat Jones, Swyddfa'r Post, â David Leyton Pierce, mab Jill a David Pierce, Eagle's View, Betws y Coed ar 10 Awst yn Y Trallwng. Cafwyd y wledd i ddilyn yng Nghastell Rowton ac yna y mis mêl yn Dubai a Gwlad Tai. Mae Sharon yn athrawes a Leyton yn Ymgynghorydd Ariannol. Dymunwn bob hapusrwydd iddynt



DIOLCHIADAU. Fe ddymuna Edgar a Pat Jones ddiolch o galon i bawb am eu dymuniadau da, yr anrhegion a'r cardiau a roddwyd i Sharon a Leyton ar eu priodas. Diolch yn fawr iawn.

DYMUNA Selwyn Jones, Ffordd yr Orsaf, ddiolch i bawb am eu dymuniadau da, y cardiau ac anrhegion mae wedi eu derbyn tra yn Ysbyty Walton, Lerpwl. Diolch am y cymwynasau gan y teulu a ffrindiau, yn enwedig yn cludo Vera yn rheolaidd i Lerpwl. Bryswich wella, deall eich bod wedi cael symud i Ysbyty Clatterbridge i gael therapi arbennig erbyn hyn. Cofion gorau atoch, Selwyn.

DYMUNIADAU GORAU am wellhad buan i sawl person: Mrs Jean Davies, Rhyd y Delyn, Ffordd Glanmoelyn; Mrs Vera Williams, Awelon ac unrhyw un

arall na wyddom amdanynt.

DIOLCHIADAU. Dymuna Kenneth, Rhiannon, Donna, Karen a Tracey, Nant y Glyn, a theulu y ddiweddar Phyllis Evans, 5 Stryd Newydd, Deiniolen, ddiolch yn ddiffuant i'w pherthnasau, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt ar golli mam, nain a mam yng nghyfraith annwyl iawn, a fu farw mor annisgwyl o sydyn.

Diolch i'r Parchedig John Pritchard am ei wasanaeth ddydd yr angladd ac hefyd i Gwynfor Jones am ei wasanaeth parchus a thrylwyr. Diolch yn fawr iawn hefyd am y rhoddion hael a gasglwyd tuag at uwchraddio Capel Ebeneser, Deiniolen a Menter Fachwen.

BABI NEWYDD.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Tracey Jacques a Rhys (Llanfairfechan) ar enedigaeth Guto Rhys. Gobeithio y gwnaiff Taid a Nain, sef Cyril a Maureen Jacques, Glanffynnon, gael boddhad mawr o'u hŵyr bach cyntaf.

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Ar 10 Medi, dathlodd Mrs Ellen Roberts, Cartref y Foelas, (Bryn Moelyn gynt) ei phen-blwydd yn 90 oed. Cafodd barti bach a llwyth o gardiau, anrhegion ac ymweliadau gan y teulu a ffrindiau. Dymuna'r teulu ddiolch o galon i'r Staff ac i bawb am gofio amdani; cafodd bleser mawr o'r diwrnod.

Y SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr Clwb 100 mis Medi oedd: £20: Mrs E. Rowlands, Llys Forgan; £7: Mrs E. Jones, 4 Hafan Elan; £5: Mrs D. Fisher, 6 Hafan Elan.

PROFEDIGAETH. Bu farw Margaret Elizabeth Humphreys, gwraig annwyl Islwyn a mam dyner Cenwyn, Ronna a Carwyn; roedd yn nain i Llion, Alaw, Chloe, Courtney, Nicole, Kieran a Jason, a hithau



Dydd Llun 7ed o Fedi oedd pen-blwydd Jennie Hughes (Wmffras) fel yr adwaenid hi gan ei chyn gyfeillion pan arferai fyw yn nheras Minffordd, Tan y Coed, cyn symud i fyw i Hafan Elan.

Mwynhaodd ei phen-blwydd yn 95 oed gyda'i theulu a ffrindiau ym Mhlas Pengwaith, Llanberis, lle y triga bellach. Mwynhaodd ei diwrnod yn fawr gyda llu o gardiau a blodau ac, wrth gwrw, dymuna Jennie ddiolch yn fawr i bawb am y llu cardiau a'r presantau.

ond yn 54 mlwydd oed. Mawr fydd eich colled a chydymdeimlwn yn arw â chi fel teulu.

DIOLCHIADAU. Noson Codi Arian er budd Elusen Epilepsi UK ac Eglwys Sant Padarn, Llanberis.

Er gwaethaf y tywydd oer, cafwyd amser ardderchog ym Mherthi, Bryngwyn, ddydd Sadwrn, 5 Medi, a noson llawn hwyl yn y wledd o rostio mochyn a baratowyd gan John, y Dyn Cig.

Daeth llawer iawn yno ac fe ddymuna Ann ddiolch i bawb a fu mor gefnogol gan wneud yr achlysur yn llwyddiannus. Diolch o galon i bawb.

DIOLCHIADAU. Dymuna Mrs Vera Williams, Awelon, Ffordd yr Orsaf, ddiolch o galon am yr holl alwadau, cardiau a blodau a dderbyniodd yn dilyn ei llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

BRYSIWCH WELLA. Mrs Joan Williams, Elaine's, sydd wedi cael pen glin newydd yn Ysbyty Gwynedd. Gobeithiwn yn arw y bydd yn gallu symud o gwmpas yn ddi-boen yn fuan iawn. Cofion gorau atoch.

MERCHED Y WAWR. Ar 8 Medi cychwynwyd y noson drwy ganu Cân y Mudiad ac estynnwyd croeso cynnes i nifer o aelodau gan y Llywydd, Margaret Parry.

Llongyfarchwyd Margaret, Linda ac Eirianwen ar ddod yn neiniau balch. Hyfryd oedd cael anfon cerdyn i longyfarch Mrs Nansi Lovatt, cyn-aelod a chynlywydd y gangen ar ei phen-blwydd yn 90 mlwydd oed. Da deall ei bod wedi gwella ac yn dal i gadw cysylltiad agos â Llanrug drwy dderbyn yr Eco yn fisol drwy'r post. Ein cofion annwyl atoch. Da hefyd oedd croesawu Menna yn ôl wedi triniaeth i'w phen glin yn ddiweddar.

Atgoffir pawb y cynhelir Noson Celf a Chrefft Arfon ar ddydd Sadwrn, 17 Hydref yng nghanolfan Tregarth, o 9.30 y bore hyd 3.00 y pŵn. Pris £15. Gwestai'r noson oedd Dyfan Roberts, wyneb cyfarwydd, llais cyfarwydd ac actor a digrifwr adnabyddus. Cafwyd sgwrs hynod ddifyr a bywiog ganddo am John Elwyn Jones, sgwrs a draddodwyd yn y Babell Llen yn y Bala.



J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pŵn - 7 diwrnod yr wythnos

Gwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refferniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Caban
CYF

Y llyfr *Pum Cynnig i Gymro* oedd dan sylw. Dyma lyfr unigryw yn y Gymraeg yn adrodd hanes John Elwyn Jones yn dianc o garchar rhyfel yng ngwlad Pwyl ac yn llwyddo ar y pumed cynnig. Yn ôl Nesta Wyn Jones:

'Cymeriad eofn, anystywallt, hwyliog, penderfynol a diflewyn-ar-dafod fu John Elwyn erioed. Ychydig iawn o gymeriadau a freintiwyd â'r fath ynni ag ef. Da iddo gofnodi ei hynt a'i helynt yn fanwl. Bu medr ieithyddol yr awdur yn gymorth iddo ddianc o ambell gornel gyfyng yn ogystal. Y mae ganddo feddwl praff a mynega ei farn yn groyw am ddiffygion crefydd, ac am driciau a chamgymeriadau gwleidyddion.'

Portreadwyd cymeriad John Elwyn yn fyw iawn i ni gan Dyfan. Orlheiniwyd ei hanes o'i blentyndod trist a thlawd ar aelwyd Tyddyn Pridd, Tal-y-Llyn. Bu colli ei fam pan yn 8 oed yn ergyd drom iddo. Ceisiodd ddianc o gartref fwy nag unwaith ac felly yn gallu bod yn annibynnol bron o'r crud. Roedd yn casau'r ysgol a'r athrawon sarrug.

'Ond, roedd yn llenor wrth reddf ac yn medru creu darn o ryddiaith caboledig yn ôl synnwyr y fawd.'

Roedd yn gallu siarad Rwsieg, Pwyleg ac Almaeneg yn rhugl. Roedd ei hynt a'i helyntion o geisio dianc o'r gwersylloedd yn codi arswyd - ei hanes bron â boddi, y newyn, y chwain a'i garwriaeth ag un ferch arbennig o wlad Pwyl, sef Selinca. Torrodd ei galon pan fu Selinca farw. Ond fe briododd deirgwaith a bu farw yn harddwch dihafal bro Dolgellau yn 2007.

Mae ei lyfr *Pum Cynnig i Gymro* (Gwasg y Sir Y Bala 1971) bellach allan o brint ond mae John Elwyn wedi cyflwyno ei ail gyfrol o atgofion i ni eu blasu yn 'Yn fy Ffordd fy Hun' (*Hunangofiant Dyn Byrbwyll*) sef ei hanes fwl swyddog mewn uned arbennig o'r gwasanaeth cudd yn yr Almaen, yr Aifft a Chyprus a hefyd yn heddwys yn

Llundain a sir Gaernarfon. Yn ôl Nesta Wyn Jones, 'O orffen darllen y cyfrolau hyn a'u cau, fe deimla'r darlennydd yn chwith o golli cwmpeini gŵr go arbennig.'

Diolchwyd i Dyfan am ei sgwrs hynod fywiog ac addysgiadol, gan obeithio y cawn, efallai, barhad o stori John Elwyn ganddo o gloriau *Hunangofiant Dyn Byrbwyll* yn fuan.

Ar 13 Hydref, cawn gwmni Llion Iwan gyda 'Creu Cymeriadau. Noddir y noson gan 'Academi'.

EISTEDDFOD LLANRUG A CHWM Y GLO. Bydd yr eisteddfod eleni yn cael ei chynnal ar nos Wener, 13eg o Dachwedd, yn Neuadd Ysgol Brynrefail. Roedd eisteddfod y llynedd yn llwyddiannus iawn gyda chystadlu brwd ym mhob adran. Bydd y noson yn cychwyn yn brydlon am 5.30, ac y mae'r rhaglenni ar gael yn awr. *Noson Celf a Chrefft.* Fe'i cynhelir ar y 9fed o Dachwedd am 5.00 pm. Mae rhywbeth yn y testunau at ddant pawb! Ac eleni, am y tro cyntaf, bydd croeso i'r cyhoedd ddod draw i Neuadd yr Ysgol Gynradd yn Llanrug am 7.30 i gael golwg ar holl gynnyrch y cystadlaethau, ac i fod yn feirniaid answyddogol hefyd, mae'n siŵr! *Ymarferion.* Bydd ymarferion ar gyfer y gwahanol gystadlaethau yn cael eu cynnal yng Nghapel y Rhos. Croeso cynnes i unrhyw un sydd am gystadlu - yn unigol neu mewn parti - i ddod draw ar y nosweithiau pwrpasol. Bydd gwybodaeth llawn am yr ymarferion yn cael ei anfon mewn llythyr o'r ysgolion.

YSGOL SUL CAPEL Y RHOS O bosibl mai hon yw Ysgol Sul fwyaf llewyrchus y fro, gyda 64 o blant ar y gofrestr. Maent yn amrywio o deirblwydd i oedran uwchradd, a gweithgareddau pwrpasol ac addas yn cael eu trefnu ar eu cyfer bob wythnos. Mae pobl ifanc oedran uwchradd yn ffyddlon iawn i'r Ysgol Sul, ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau arbennig megis gwasanaethau Diolchgarwch a'r Nadolig, yn

YSGOL SUL LEWYRCHUS



Aelodau'r Ysgol Sul ar ymweliad â Choleg Y Bala

ogystal â dysgu emynau a chaneuon cyfoes i'r plant ieuengach.

Cynhelir gweithgareddau codi arian at wahanol elusennau drwy stondinau gwerthu a nosweithiau coffi. Mae'r plant yn cael y cyfle i greu eu posteri eu hunain ar gyfer digwyddiadau o'r fath gan ddefnyddio cyfrifiadur yr Ysgol Sul.

Bob mis Ebrill bydd cyfle i ymweld â'r Bala, ble bydd cyfle i gymdeithasu â phlant o rannau eraill o Gymru, a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn amrywio o gemau a storïau am y Beibl, i chwarae pêl-droed a nofio.

Mae chwech o athrawon ifanc a

brwdfrydig yn gofalu am yr Ysgol, ac nid eistedd a gwrando yn unig a wna'r plant! Ar wahân i ddysgu neges bwysig yr Efengyl, maent yn cael gweithgareddau hwyliog megis helpa drysor, helpa wyau Pasg, gemau symudol, actio neu fynd am dro. Nid yn y dosbarth yn unig y cynhelir yr Ysgol Sul!

Mae'r athrawon bob amser yn barod i groesawu mwy o blant i fwynhau cymryd rhan yn yr Ysgol Sul fywiog a gweithgar, ac yn croesawu rhieni i gael cyfle i weld beth yn union sy'n digwydd yma. Os am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Rhian Whiteside Thomas ar 01286 677217.

PLAID CYMRU

Roedd Neuadd y Sefydliad yn llawn i glywed cynhyrchiad Theatr Bara Caws "Wil Sam, y Dewin geiriau." gyda Stewart Jones yn cyflwyno hanes Wil Sam Jones. Bydd cyfarfod agored nos Fercher 21 Hydref yn y Sefydliad Coffa chi gael cyfle i gynnig syniadau ar ffyrdd i wella'r pentref i'r dyfodol, rhoi eich barn a chyfarfod eich cynghorydd sir a rhai o gynghorwyr y Cyngor Cymuned.

CYLCH TI A FI

Mae'r Cylch Ti a Fi wedi dechrau cyfarfod eto yng Nghapel y Rhos ar ddydd Gwener rhwng 9:30 a 10:45. Dewch am banded, sgwrs a chwarae!

Os yw eich plentyn yn ddyflwydd a hanner cyn diwedd Chwefror ac eisau dod i'r Cylch Meithrin cofiwch gofrestru cyn gynted â phosib. Cysylltwch â Nicsaola Griffiths yn y Cylch Meithrin ar dir yr Ysgol Gymuned.

H.E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys

LLANBERIS

Ffôn: 870444



★ Gwerthwr Glo

★ Olew Gwres Canolog

i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Gwasanaethau Garddio Gorwel

01286 650761

07773 020424

Planu Llwyni

Planhigion a Llysiau

Tori Cwair a Cwrychoedd

Tocio Palu a Chwynu

Tacluso a Gofal Tymhorol

Gwella Safon Tir

Glanhau Llwybrau, Tywarchu

CWBL YSWIRIEDIG

EISTEDDFOD

BENTREF

LLANRUG

A CHWM Y GLO

Yn NEUADD YSGOL

BRYNREFAIL

Nos Wener, 13eg o

Dachwedd

Am 5.30pm.

Noson Celf a Chrefft -
Neuadd Ysgol Llanrug
Cynnyrch i law erbyn
5.00pm

Nos Lun, 9fed o

Dachwedd.

Arddangosfa o'r Cynnyrch
am 7.30pm.

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

YR YSGOL GYMUNED

Croeso. Croesawyd 6 o blant bach newydd i'r Dosbarth Meithrin. Mac Ryan, Mac, Lauren, Gerallt, Alex a Robert wedi setlo i lawr yn dda iawn yn ein plith. Rydym hefyd yn croesawu Kyrees, sydd wedi ymuno â Blwyddyn 3.

Hefyd croesawn Miss Anest Jones o Hyfforddiant Gwynedd i'n plith, bydd yn treulio cyfnod yn Nosbarth y Babanod fel rhan o'i chwrs.

Pob Lwc! Dyna a ddymunwn i'r plant sydd wedi dechrau ar eu cyfnod yn Ysgol Brynrefail. Llongyfarchiadau i William Lamb ar ennill gwobr am y gwaith gorau yn y Gymraeg yn ystod 2008/09. Mae'r wobwr yma yn cael ei chyflwyno i'r ysgol gan Mr Selwyn Griffith yn flynyddol a mawr yw ein diolch iddo am hyn.

Mae'r ysgol yn falch iawn o gael cyhoeddi ein bod wedi derbyn gwobr Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig 2009 o £200 yn rhoddedig gan Archifau Menywod Cymru. Roedd prosiect wedi ei baratoi ar y teitl 'Cynefin'. Dyma'r feirniadaeth a dderbyniwyd am y gwaith:

'Fel y gellid disgwyl gyda'r fath deitl, roedd y prosiect hwn yn ymdrin â llawer o elfennau lleol, yn cynnwys Cân Actol ardderchog - seiliedig ar y chwedl werin, Marged ach Ifan, - ymweliadau a thirnodau lleol, cyfle i ddysgu sgiliau newydd gydag artistiaid lleol a chwrdd â'r Prifardd lleol. Bu'r disgyblion hefyd yn astudio'r Celtiaid, Branwen a Siwan. Yn ogystal ac astudio'r gorffennol, trafododd y disgyblion sut i rannu eu treftadaeth, gwella eu hardal a chynhaliwyd dadl ynglŷn â dyfodol y gwasanaeth bws Sherpa lleol.

Roedd eu cyflwyniadau a'u dehongliad dwyieithog o'u gwaith yn cynnwys amrywiaeth eang o gyfryngau, o ffilmiau digidol, taflenni gwybodaeth a llyfrynau, i'w tapestri o groesawu Celtaidd. Roedd defnyddio sgiliau meddwl a datblygu empathi gyda'r cymeriadau yn elfen gref yn y prosiect. Dangosodd y disgyblion eu bod wedi dysgu llawer iawn am eu bro a'u bod yn ymfalchio yn eu treftadaeth.'

Gwersi Nofio. Mac 28 o blant dosbarthiadau 2, 3, 4, 5 a 6 wedi dechrau ar gyfres o wersi nofio sydd yn cael eu cynnal yn wythnosol ar fore dydd Iau. Mae pawb yn mwynhau.

Gwersi Offerynnol. Mac 8 o blant yn derbyn gwersi yn yr ysgol bob wythnos.

Gweithdai. Daeth Louise Frazer

i'r ysgol ddydd Llun, 121 Medi, i gynnal Gweithdy Gwyddoniaeth ar gyfer Bl. 3, 4, 5 a 6. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiadau a gafwyd yn creu gwahanol bethau.

Dydd Gwener, 25 Medi, aeth Bl. 2, 3 a 4 i gymryd rhan mewn Gweithdy ar y Chwarel yng Nghanolfan Treftadaeth Cae'r Gors.

Urdd. Bydd cyfarfodydd gweithgareddau'r Urdd yn cychwyn yn yr ysgol ar ôl hanner tymor.

CRONFA'R PENSIYNWYR. Pêl Bonws Loteri. Enillydd mis Gorffennaf oedd Mrs Janet Ash, Commercial, (Rhif 4), ac enillydd mis Awst oedd Mrs Kate Rosser, 5 Llys y Gwynt, (Rhif 5). Llongyfarchiadau!

CINIO NADOLIG Y PENSIYNWYR. Eleni byddwn yn mynd i Westy'r 'Grand' yn Llandudno ar ddydd Sadwrn, 5 Rhagfyr. Bydd y bws yn cychwyn am 10.30 o'r gloch a bydd cyfle i wneud ychydig o siopa ar ôl cyrraedd, yna bydd y bws yn cludo pawb i'r gwesty am ginio Nadolig erbyn 1.30 o'r gloch. Byddwn yn anfon y gwahoddiadau o gwmpas yn nes ymlaen ond os oes unrhyw bensiynwr o'r pentref heb dderbyn gwahoddiad ond yn awyddus i ddod, mae croeso i chwi gysylltu â Mrs Janet Ash, Commercial (ffôn 871265) i roi eich enw iddi.

GENEDIGAETH. Croeso i Mared Lois, merch fach i Nia a Kelvin o Gwm y Glo, chwaer fach i Gwenllian ac wyres i Len a Carole Porter.

YSGOL SUL BOSRA. Mor braf oedd croesawu deunaw o blant yn ôl i'r Ysgol Sul. Croeso cynnes i Emily a Harri atom ac rydym yn hynod falch fod Mr Evie Jones yn dal i gadw trefn arnom fel Arolygydd ffyddlon. Y mae'r gwaith o adnewyddu to y Capel wedi dechrau ac edrychir ymlaen am weld y Capel ar ei newydd wedd. Fel apêl, y mae aelodau'r Pwyllgor yn gwerthu dyddiau Calendr 2009 am £1 y dydd. Byddem yn hynod falch o'ch cefnogaeth.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Hydref a'r cnillwyr y tro hwn oedd: Carolyn Roberts, Pen Dinas Mawr a Dafydd Ifans, Sycharth.

Cynhelir Pwyllgor ar nos Lun, 5 Hydref am 7.30 o'r gloch i drefnu gweithgareddau pellach.

CYDYMDEIMLO. Ar 7 Medi, yn sydyn yn ei chartref yn Neiniolen, bu farw Phyllis Evans, priod, mam, nain a chwaer annwyl i Eirlys Jones, Gwynant, Bryn Hyfryd.

Derbyniwch ein

cydymdeimlad llwyrâf â chi, Eirlys, Brenda, Jonathan a Ken a'r teulu oll yn eich colled fawr. **DIOLCH.** Dymuna Eirlys Jones ddiolch o waelod calon am y galwadau ffôn, cardiau, ymweliadau, blodau a'r rhoddion ariannol hael iawn tuag at uwchraddio Festri Capel Ebeneser Deiniolen ac i Fenter Fachwen. Diolch yn fawr iawn i bawb.

MAURICE NAYLOR. Anfonir ein cydymdeimlad llwyrâf at deulu Moi Naylor, Dwygyfylchi, wedi ei ddamwain angeuol ar 8 Medi ac yntau ond yn 48 mlwydd oed. Yn frodor o'r pentref hwn, talwyd teyrngedau lu iddo fel gŵr, tad, taid hoffus a dyfarnwr di-duedd ym myd y bêl-droed. **GWELLHAD.** Do, fe ddaeth rhyw Ha' Bach Mihangel i godi'r galon. Gobeithio bod y rhai ohonoch sydd wedi bod yn sâl yn teimlo'n well erbyn hyn. Da deall fod Betty Pritchard, 3 Llys y Gwynt adref o'r ysbyty ac yn gwella'n dda. Ein cofion annwyl at Gwyneth, Minffordd a Mrs Annie Hughes, y ddwy bellach yng ngofal Cartrefi Nyrsio.

DIOLCH. Dymuna Betty Pritchard ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd a'u cyfeillgarwch wedi ei thriniaeth yn yr ysbyty. DioLch am y cardiau, Y blodau a'r Rhoddion a fu'n hwb sylweddol i wella.

EGLWYS SANTES HELEN. Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch ar fore Sul, 18 Hydref am 11.00 o'r gloch. Gweinyddir y Cymun Bendigaidd gan y Ficer, Lloyd Jones.

FFAIR CYNHAEAF. Cynhelir y Ffair Gynhaeaf ar nos Lun, 19 Hydref, yn Neuadd yr Eglwys am 6.30 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

EISTEDDFOD BENTREF. Cynhelir yr Eisteddfod ar nos Wener, 20 Tachwedd am 6.00 yr hwyr yn y Neuadd Gymuned.

Wedi'r Noson Goffi ar 30 Medi, y mae Rhaglenni'r Eisteddfod yn awr ar gael. Dymunir pwysleisio mai 6

Tachwedd yw dyddiad cau y cynnyrch llên - deunydd i law Marina Jones, yr Ysgrifennydd (872488).

Beirnedir y Coginio ar bnawn Iau, 19 Tachwedd o 3.30 o'r gloch ymlaen a chynnyrch Celf a Chrefft ar yr un diwrnod.

Bydd yr ymarferion canu ac adrodd yn cychwyn ar nos Lun, 5 Hydref a nos Iau, 8 Hydref rhwng 6.00-7.00 o'r gloch. Felly, dowch yn llu i gefnogi un o'r Eisteddfodau Pentref sy'n mynd o nerth i nerth.

Dilys

Trin Gwallt Teithiol

Trin gwallt merched, dynion a phlant yn eich cartref



Symudol:

07919 897898

Ffôn:

(01286) 871869

Darren Jones

Contractiwr Teilsio

CEGINAU

**YSTAFELLOEDD
YMOLCHI**

A LLORIAU

*9 Rhos Rug
Llanrug Caernarfon*

(01286) 669090

Mobile-07894818783

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- **Pob math o ddodrefn tŷ**
- **Cegin, 'stafell fyw, llofft**
- **Prisiau cystadleuol**
- **Carpedi, Llenni a Lloriau Pren**

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

ÔL-RADDIO.

Llongyfarchiadau i Iona Ceiriog, Erw Wen, ar ennill gradd 'M.Ed.' o Brifysgol Birmingham. Da iawn!

DIOLCHIADAU. Dymuna Clive James ddiolch i'r sawl a drefnodd ac i'r nifer mwy a fynychodd y parti syrpreis iddo yn Nhafarn Bryn Gwna adeg ei ben-blwydd yn 60 oed. Diolch yn fawr hefyd am yr holl gardiau a photeli! Mae'r pasys bws, trên a nofio wedi cael eu defnyddio eisoes!

LLWYDDIANT YN YR ARHOLIADAU.

Llongyfarchiadau i Celt, Owain, Jonathan a Jac ar eu llwyddiannau yn yr arholiadau TGAU eleni.

PEN-BLWYDDI. Llongyfarchiadau i Aled Jones ar ei ben-blwydd yn 75 mlwydd oed yn gynharach yn yr haf. Mae'n amlwg fod cerdded â chi yn cadw rhywun yn heini. Hefyd mae Gwenllian Daniel wedi cyrraedd oed arbennig.

CAPEL CAEATHRO. Bydd y digwyddiadau canlynol yn ystod mis Hydref:

Nos Iau, 1 Hydref

7.00: Sefydlu y Parch

Marcus Robinson fel Gweinidog yr Eglwys.

Sul, 4: 11.00: Ysgol Sul

11: 10.00: Oedfa

Ddiolchgarwch Croeso mawr i bawb

18: 10.00: Parch Harri Parri

25: 11.00: Ysgol Sul.

CADEIRYDD CLWB RYGBI. Llongyfarchiadau i Teresa, merch Eddy Wynn, Plas Bach, ar gael ei hethol yn Gadeirydd Clwb Rygbi'r Wyddgrug.

CYFARFOD BLYNYDDOL CYMDEITHAS CAE

CHWARAE CAEATHRO. Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol ar 21 Medi. Yn ei adroddiad ar y flwyddyn a fu pwysleisiodd y Cadeirydd am yr

angen i gynyddu nifer aelodau y Pwyllgor os yw'r holl weithgaredd am barhau. Hefyd er mwyn cynnal lefel yr incwm mae'n bwysig ceisio cael pob aelwyd yn yr ardal i gyfrannu at y Tynfa Misol - mwy nag un mewn aelwyd os yw'n bosibl!

Wrth gyflwyno'r Fantolen, dywedodd y Trysorydd fod y Gymdeithas wedi gwneud colled o £300 yn ystod y flwyddyn. Yn ei farn o dylai'r arian wrth gefn fod tua £4,000, dwywaith y lefel presennol.

Etholwyd y swyddogion canlynol: Cadeirydd - Clive James; Trysorydd - Richard Jones; Ysgrifennydd - Tim Lloyd. Ar ôl ethol Dewi Jones, Norman Hughes, Huw Ceiriog, Eryl Jones, Alun Roberts a Wyn Jones, roedd 6 lle gwag ar y Pwyllgor. Felly mae'r Cymdeithas am ofyn i wirfoddolwyr ddod ymlaen.

Fel eitem arbennig trafodwyd effaith y cais cynllunio rhwng Hen Gapel a Chaeathro Bach ar waith y Gymdeithas. Fel canlyniad mae'r Ysgrifennydd wedi sgwennu at Gyngor Gwynedd yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig oherwydd: ei maint os adeileddir i gyd ar unwaith; absenoldeb ffordd trwodd i'r cae chwarae ar gyfer cynnal a chadw ac argyfyngau, yn unol ag addewidion adeg paratoi'r Cynllun Datblygu Unedol, ac effaith y mynedfeydd a thraffig ychwanegol ar ddiogelwch plant ac eraill sy'n cerdded ar hyd y 'pafin' cul presennol i'r cae chwarae pel-droed.

TYNFA MISOL. Enillwyd Tynfa Misol y Gymdeithas Cae Chwarae ym mis Medi oedd: £40: (113) - Denis Ratcliffe, Tyddyn Cae; £25: (108) Teulu Tŷ'r Ysgol; £15: (101) Dewi Parry, Cefn Rhos; £5: Aled Thomas, Llwyn Onn.

CANOLFAN Y CAPEL



Y SUL NESAF

11.00 YSGOL SUL

2.00 OEDFA

GWEINIDOG

Parchedig Marcus Wyn Robinson B.D.
Cartrefle, Bethel, Caernarfon, LL55-1AA

GOFALAETH GLANNAU SEIONT

Y Parchedig Marcus Wyn Robinson, Y Gweinidog, y tu allan i Gapel Caeathro ar 1 Medi 2009, ei ddiwrnod cyntaf fel gweinidog y pentref. Mae'r eglwys wedi ymuno â Gofalaeth Bro Seiont, Henaduriaeth Arfon, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, gyda Capel Cysegr, Bethel, a Chapel y Rhos, Llanrug.

BE 'DI HWN?



Teclyn i bwyso sofran a hanner sofran oedd yr ateb yr ateb cywir, a llongyfarchiadau i Norah O'Brian, o Fangor gyda'r ateb cywir cyntaf allan o'r het, ac felly hi fydd yn derbyn tocyn o £10 i'w wario yng Nghaffi Blas y Waun. Bydd cystadleuaeth arall yn mis Tachwedd

John C. Thomas

SAER COED

ARBENIGO MEWN CEGINAU A DODREFN CEGIN

Saer Profiadol • Prisiau Teg
Ystyried pob math o waith

(01286) 872012
Symudol- 07790 083643

ECO'R WYDDFA

DRWY'R POST

I dderbyn ECO'R WYDDFA

i'ch drws bob mis cysylltwch ag Olwen Hughes.

Mae ei manylion cyswllt i'w cael ar dudalen 2.

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol


2 Stryd y Plas, Caernarfon
(01286) 672727

8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Menai, Bangor
(01248) 674460

Dewch atom am gyngor ynghylch yswiriant a materion ariannol



Awdurdodir a rheolir gan yr
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol



GWYNANT PIERCE

Cynrychion Coed:
Gatiau, Ffensws ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 674163
(0589) 899901

Sychlanhau • Altro
Ailwnio
Gwasanaeth
Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr
Llanberis

Ffôn: **870088**

SWIGOD A SEBON

GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO



www.fframia.com

FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922

www.fframia.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

BWRLWM BRYNREFAIL YN Y CABAN. Ddydd Sadwrn, y 5ed o Fedi, daeth nifer o blant ac oedolion ynghyd i ddathlu pen-blwydd y Caban yn 5 oed. Ymysg yr aml weithgareddau, cafwyd Helfa Drysor, Gwisg Ffansi, Mabolgampau o bob math, Gêm Bêl-droed rhwng yr Iau a'r Hŷn - gyda'r rhai Hŷn yn fuddugol! Roedd rasys hyd yn oed i falwod a gorffen yr oll gyda Sioe Gŵn.

Tra 'roedd yr holl weithgareddau yma ymlaen, cafwyd picnic enfawr ac adloniant gan grŵp Mooncoin a Kev Fox.

Da oedd gweld y Caban yn ganolfan nid yn unig i'r pentref ond i'r ardal eang ac yn llawn haeddu canmoliaeth ar ei ben-blwydd.

Llawer o ddiolch i'r Rheolwyr a'r Staff am ddiwrnod i'w gofio. Er mai nid diben y dydd oedd codi arian, fe wnaed elw ac fe'i defnyddir er budd ieuenctid y pentref.

Llawer o ddiolch iddynt hwythau hefyd am ein diddori ar y nos Wener ar barc bwrdd-sglefrio Cwm-y-Glo.

Diolch i bawb gyfrannodd at lwyddiant y dydd.

YR EGLWYS
BRESBYTERAIDD
PROFEDIGAETH.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Lowri Prys Roberts Williams, Godre'r Coed, yn ei phrofedigaeth o golli ei gŵr annwyl, Norman Williams, ar Fedi 2il, 2009 yn 95 mlwydd oed. Byddwn yn gweld bwlch amlwg yn ein cynulleidfa a cholli ei gwmniaeth ddiddan o'n gwasanaethau lle byddai yn eistedd yn ei sedd arferol o Sul i Sul.

Byddai bob amser yn cyfarch ei gyd-aelodau a'r cennad yn foneddigaidd gyda sylwadau diddorol a pherthnasol. Cyfrannai yn gyfoethog i'r moliant a thrafod y bregeth yn werthfawrogol. Cofiwn hefyd am ei wasanaeth parod yn oedfaon yr aelodau ac yn y Gymdeithas.

Byddai'n mwynhau cymryd rhan ar y cyd gyda'i briod mewn gwasanaethau ar achlysuron arbennig. Mae'r golled i ni fel Eglwys yn fawr ond mae ein meddyliau gyda Lowri yn ei hiraeth a'n diolch yn mynd iddi am ei gofal arbennig ohono dros y blynyddoedd.

Bu'r gwasanaeth angladdol ddydd Llun, Medi 7fed yng Nghapel Coch Llanberis a rhoddwyd Norman i orffwys ym Mynwent Eglwys Sant Deiniol, Llanddeiniolen.

Y GYMDEITHAS. Daeth yr aelodau ynghyd yn y Caban nos

Iau, Medi 10fed. Cadeirydd y noson oedd Verna Jones, Meillionen, a seiliodd ei myfyrdod ar agweddau ar fis Medi. Cyflwynodd y siaradwr gwadd, Gwilym Evans, Llanberis, i siarad ar y testun 'Olew Morris Evans'. Treuliodd noson hwyliog yn ei gwmni yn sôn am y modd y bu i'w hen daid gynhyrchu'r olew a ddaeth i boblogrwydd mawr drwy'r wlad, ac yn wir gael ei anfon i wledydd pell fel De Affrica a Phatagonia. Diolchwyd yn gynnes iddo gan y Cadeirydd.

Bydd y cyfarfod olaf am y flwyddyn yn cael ei gynnal, sylwer, ar y dydd Iau olaf ym mis Hydref a hynny yn y prynhawn. Edrychir ymlaen at gael ymweld â Chae'r Gors, cartref Kate Roberts yn Rhosgadfan.

OEDFAON HYDREF

- 4: Parch Gwenda Richards, Caernarfon am 2.00 o'r gloch
- 11: Oedfa Ddiolchgarwch am 5.30, gyda'r Parch Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon
- 18: Parch Marcus Robinson am 2.00 o'r gloch
- 25: Dr Eryl Wynn Davies am 10.00 o'r gloch.

TEYRNGED I NORMAN WILLIAMS

Yn ymadawiad Norman Williams, Godre'r Coed, Brynrefail, collwyd gŵr a feddai ar bersonoliaeth hyfryd ac arbennig iawn. Cyrhaeddodd yr oedran teg o naw deg a phump, gan fwynhau bywyd llawn hyd yr wythnosau olaf.

Yn enedigol o Ddwyran, Ynys Môn, bu farw yn dawel ddydd Mercher yr ail o Fedi yn Ysbyty Gwynedd. Gadawodd ei annwyl briod, Lowri Prys, dwy ferch Elizabeth a Patricia a dau fab Keith a Christopher. Roedd yn daid balch i Estelle, Crispin, Toby, Rhian a Sebastian a hen daid i Max, Harry, Abby, Laila a Dana.

Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yng Nghapel Coch, Llanberis, dan ofal y Gweinidog, y Parch D. John Pritchard yn cael ei gynorthwyo gan Y Parch Iorwerth Jones Owen, Caernarfon, a'r Parch R. E. Hughes, Nefyn. Talwyd teyrngedau gan H. Desmond Healy, Rhuddlan, cyn-brifathro Ysgol Uwchradd Glan Clwyd (lle bu Norman Williams yn Ddirprwy Brifathro am dros ugain mlynedd) a'i fab yng nghyfraith, Y Tad Gregory, Eglwys Sant Demetrius a Nicetas, Plymouth. Yn ystod y

gwasanaeth cafwyd datganiad cofiadwy o 'Nearer my God to Thee' gan un o ffrindiau pennaf Norman, Hugh Hughes, Llangefni.

Fe'i magwyd ar aelwyd grefyddol a diwylliedig a derbyniodd ei addysg gynnar yn Ysgol Gynradd Dwyran. Adroddai lawer am yr addysg honno a'r profiadau arbennig a gafodd pan oedd yn blentyn yn gysylltiedig â'r capel yn y pentref. Yn ddiweddarach yn Ysgol Sir Llangefni daeth dan ddylanwad amlwg y Prifathro S. J. Evans, lle'r ysgogwyd ef i feithrin a datblygu ei amryw ddoniau. Datblygodd yn ei allu i lunio barddoniaeth ac i garu llenyddiaeth Gymraeg a Saesneg - diddordeb a barodd gydol ei oes, a meithrin dawn gerddorol gyda'i lais bas hyfryd a barodd i'r diwedd.

Yn ystod ei ddyddiau ysgol hefyd datblygodd y ddawn fel gôl-geidwad, fel un tîm cyntaf ei ysgol, ei Sir a Niwbwrch, wrth gwr, a'i Goleg wedi hynny. Yn y cyfnod hwnnw fe'i llys-enwyd yn Scott ar ôl Elisha Scott, gôl-geidwad enwog Lerpwl ar y pryd. Glynodd y llys-enw wrtho gydol ei oes. Ond i dim Aston Villa y rhoes ef ei hun ei deyrngarwch a glynodd wrtho yn frwdfrydig hyd y diwedd eithaf.

Talai deyrnged aml hefyd i'w athro Cemeg yn Llangefni yr hwn a fu'n bennaf gyfrifol am lywio ei yrfa yn y byd gwyddonol. Graddiodd gydag anrhydedd mewn Cemeg ym Mhrifysgol Bangor, pwnc y bu'n ei ddysgu yn llwyddiannus mewn ysgolion uwchradd yn Lloegr a Chymru, fel y tystiodd cyn-ddisgybl o Ysgol Grove Park, Wrecsam, wedi clywed am ei ymadawiad ac a ddaeth i'w angladd - 'Yr athro gorau a gefais erioed.'

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, fe'i consgriptiwyd i weithio yn labordy Ffatri Frenhinol Ordans, Wrecsam. Bu hefyd am bymtheng mlynedd yn ystod ei gyfnod yn Ysgol Ramadeg Llanelwy yn arholwr yn ei bwnc i Fwrdd Arholi Rhydychen.

Rhoes wasanaeth clodwiw i'r ysgolion lle bu'n athro a dirprwy bennaeth ynddynt ac i'r cymdogaethau y bu'n treulio amser yn eu plith. Byddai wrth ei fodd ymhlith disgyblion yn eu harddegau a thra bu yn Ysgol Glan Clwyd byddai'n hybu a chefnogi disgyblion ymhob gweithred ddyrchafol ei natur. Laweroedd o weithiau aeth â charfan o ddisgyblion dan ei ofal i gapel ac eglwys a chartref henoed i gynnal gwasanaeth neu i roi adloniant.

Ymdddeolodd o'i broffesiwn yng nghanol y saithdegau. Dyma'r cyfnod yr ymroddodd i ddatblygu ei ddawn greadigol fel arlunydd. Ei hoff faes oedd

bywyd gwyllt mewn olew, yn arbennig paentiadau o deigrod. Hyn, maes o law, fu'n fodd i'w ddwyn i gysylltiad â neb llai na Virginia McKenna, actores enwog y ffilm *Born Free* a'r elusen a sefydlodd hi i warchod bywyd gwyllt.

Rhoddodd hefyd o'i amser, ei egni a'i allu yn hael a pharod i gymdeithasau a chapeli lleol ar Ynys Môn a thu hwnt fel darlithydd a phregethwr cynorthwyol.

Gwnaeth astudiaeth drylwyr o'r Parchedig Tom Nefyn Williams. Roedd trylwyredd a threfnusrwydd yn rhan annatod o'i gymeriad. Dysgodd gan Tom Nefyn fod gwyleidd-dra a charedigrwydd yn ddwy rinwedd hanfodol y Cristion. Gwnaeth yntau bob ymdrech i'w mabwysiadu a'u gweithredu yn ei fywyd ei hun. Byddai'n hynaws a hael wrth blant ac ieuenctid ei gymdogaeth a melys yw eu hatgofion amdano.

Roedd yn ŵr hynod o foneddigaidd a mawr ei barch, a phrydlondeb ymhob ystyr yn un o'i rinweddau amlwg. Sylweddolai hefyd pa mor bwysig oedd gwasanaeth, cyfeillgarwch a chymwynasgarwch. Gwerthfawrogai pob ewyllys dda a gweithred radlon. Bu'n gydwybodol yn gweithredu dymuniad ei gynbriod, Eluned, i gyflwyno eu cartref yn Llangefni er budd elusennau fyddai'n estyn lloches i'r cyfryw a fyddai'n dioddef o waeledd nad oedd gwella iddo. Yn rhinwedd y weithred honno gwahoddwyd ef i gyfarfod â Duges Caint, cyfarfod y bu'n dda ganddo ei gofio.

Yn ŵr siriol, unionsyth ei gerddeddiad i'w ddyddiau olaf, meddai ar wên hudolus a adlewyrchai ei gymeriad cyfan.

Treuliodd bymtheng mlynedd olaf ei fywyd ym Mrynrefail yng nghwmni ei gariadus briod, Lowri. Cafodd flynyddoedd o gyd-ymddiddori a chyd-rannu yn helaeth yn y pethau a garai gydol ei oes - y diwylliant Cymreig, cerddoriaeth, addoliad ar y Saboth, y pleser o deithio cyson ac eang gan ymweld â mannau diddorol a hanesyddol ym Mhrydain a gwledydd y Cyfandir.

Yn ddwfn yn ei enaid yr oedd cariad at y môr, hiraeth am hwylio a chael gweld y gwledydd pell. Ond yn ddyfnach fyth yr oedd hiraeth am wlad sydd tu hwnt i'r moroedd mawr:

Hwnt i bob gorwel, pob heli -
hwyliast

At haul dy Oleuni
Nes dod i draeth d'hiraeth di
Ac i fyd d'atgyfodi

H. DESMOND HEALY

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

SEFYDLIAD Y MERCHED. Mewn cyfarfod o'r Sefydliad a gynhaliwyd ar 3 Medi, croesawodd Catherine Jones, y Llywydd, yr aelodau yn ôl wedi gwyliau'r haf, yn arbennig Pat, ar ôl ei damwain, a Lowri, ar ôl ei llawdriniaeth.

Llongyfarchodd Betty ac Annie ar ddod yn hen neiniau unwaith eto.

Mrs Jean Lane o Morfa Bychan oedd y wraig wadd am y prynhawn a chafwyd sgwrs ganddi ar sut y daeth i ymuno â'r Sefydliad ac wedyn flynyddoedd yn ddiweddarach yn gynrychiolydd Coleg Denman. Cafwyd hanes ganddi ar sut y sefydlwyd y Coleg a soniodd am y gwahanol gyrsiau sydd ar gael yno rŵan. Diolchwyd iddi gan y Llywydd. Enillwyd y raffl, oedd wedi'i roi gan Betty, gan Wena.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 1 Hydref pryd y ceir 'Aerobics Cadair' gan Pat Jones. Croeso cynnes i aelodau newydd. Bydd y cyfarfod yn dechrau am 1.30 y pnawn yn Festri Eglwys y Waun.

MERCHED Y WAWR. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd i ymuno â Merched y Wawr eto eleni.

Rydym yn cyfarfod yn Y Ganolfan ar y pedwerydd dydd Iau o bob mis am 7.30 o'r gloch.

Ar nos Iau, 22 Hydref, bydd Rhys Siôn (Pant Teg gynt) yn sôn am ei fywyd a'i waith yn Llundain. Dewch i fwynhau'r cymdeithasu.

ARHOLIAD PIANO. Llongyfarchiadau i Tomos Parry, Cefn Waun, ar lwyddo yn yr arholiad Piano Gradd Un. Rhaid iti ddal ati rŵan, Tomos. Da iawn chdi.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Dewi Morgan Jones, Bryn Tawel, ar ddod yn daid am y tro cyntaf. Ganwyd mab bach, Llion John, i'w ferch, Elen Morgan a Mathew. Gor-ŵyr i Mrs Margaret Jones, Glasfryn.

Llongyfarchiadau i Bethan a Robat Williams, Gwernydd, ar enedigaeth ŵyr bach. Ganwyd Brython Rhun i Siân a Llion, eu mab, brawd bach a ffrind i Mari Rhun.

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Llongyfarchiadau i Beth Greasley, Pen-y-Berth, Stad Pant Waun, ar gyrraedd ei phen-blwydd yn un ar hugain mlwydd oed. Dymuniadau gorau iti, Beth.

PENBLWYDD ARBENNIG IAWN. Dymunwn ben-blwydd hapus iawn i Mr Robin Jones (Ty'n Cae gynt), Bryn Gwylan, sydd wedi bod yn dathlu

cyrraedd ei bedwar ugain oed. Cymeriad arbennig yn y Waun sydd bob amser yn barod i drafod a sgwrsio am yr hen amser.

Bu arddangosfa o luniau o Robin fel Bugail y Mynydd yn Oriel Plas Glyn y Weddw yn ddiweddar.

DYWEDDIAD. Llongyfarchiadau i Emma Williams, Stad Tref Eilian ar ei dyweddiad â Tim o Lanllyfni. Dymunwn bob hapusrwydd ichi eich dau. ANAFU. Mae'r tywydd braf yma wedi denu'r plant allan i chwarae ar ôl yr ysgol ond yn anffodus mae tri ohonynt wedi syrthio a thorri asgwrn.

Llithrodd Katie Louise, 14 Stad Ty Hen a thorri ei braich; neidio a glanio'n rhy sydyn wnaeth Gavin John, Bryn Celyn a thorri ei figwrn, a syrthio hefyd wnaeth Ryan Richards, 18 Stad Ty Hen a thorri ei goes. Gobeithio'n fawr y byddwch yn gwella ac yn cael tynnu'r plaster caled yn fuan.

CROESO ADREF O'R YSBYTY. Croeso adref i Guto, mab bach Rhiannon ac Andrew, Gwylfa, wedi iddo gael triniaeth tynnu tonsiliau yn yr ysbty. Gobeithio y byddi di'n gwella yn fuan, Guto bach.

YN YR YSBYTY. Dymunwn anfon ein cofion cynhesaf at Mrs Edith Ellis, Min y Nant, a Mrs Dick Rowlands, Stad Bryn Golau, sydd yn yr ysbty ym Mangor ar hyn o bryd.

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Jeanette Burdon, 4 Dôl Erddi, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd a oedd yn byw yn Llundain.

Yn dawel mewn Cartref Nyrsio ym Mhorthmadog, bu farw Mrs Megan Williams, (17 Tref Eilian gynt). Cydymdeimlwn yn ddwys â'i mab, Meirion, ac â'i dwy ferch, Linda a Gill, yn eu profedigaeth

drist.

Daeth y brofedigaeth o golli mam i ran Carwyn Humphries, 11 Ael y Bryn. Cydymdeimlwn yn ddwys â chi fel teulu yn eich colled a'ch hiraeth dwys o golli mam a nain annwyl.

Yn frawychus o sydyn yn ei chartref yng Nghaernarfon bu farw Mrs Phyllis Roberts, mam annwyl i Lesley a'i phriod Ian Williams, 4 Stad Ty Hen, a nain garedig i Ffion a Gwenan. Derbyniwch ein cydymdeimlad yn eich colled fawr. BRYSLA WELLA.

Yn ddiweddar bu Nia Llwyd Griffith, Dolydd, Stad Ty Hen, yn yr ysbty yn cael llawdriniaeth pen glin. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am adferiad buan iti Nia.



DRAENOG

Fu fawr o gyfle am dorheulo'r haf hwn. Ond roedd un o hogia Llanrug, sydd bellach yn byw yn Sunny Penygroes, yn benderfynol o gael lliw. Er hynny, roedd yn ddigon gofalus i rwbio digonedd o eli haul drosto cyn mentro allan i'r haul (bu bron i mi a sgwennu 'crasboeth'). Ond, yn anffodus, mae'n amlwg iddo ddefnyddio'r botel anghywir, oherwydd pan ddaeth ei ferch i ymweld yn ddiweddarach yn y dydd, cafodd fod ei thad wedi cael lliw haul yn llythrennol. Roedd yn felyn drosto! Mae draenog ar ddeall ei fod yn gwrthod yn bendant roi unrhyw wybodaeth am yr eli anghywir a ddefnyddiodd!

Gwobr genedlaethol i Barciau Gwledig Gwynedd

Mae dau barc gwledig Cyngor Gwynedd wedi eu gwobrwyo am eu safon wrth ennill Gwobr Baner Werdd genedlaethol am yr ail flwyddyn yn olynol.

Dyma'r ail flwyddyn i Barc Padarn yn Llanberis a Pharc Gwledig Glynllifon ger Llandwrog sicrhau'r Wobr Baner Werdd - safon genedlaethol ar gyfer Parciau Gwledig a Mannau Gwyrdd o safon uchel.

Mae'r statws Baner Werdd yn clustnodi'r Parciau fel rhai sydd ymhlith y gorau yn y wlad.

Dywedodd y Cyngorydd Roy Owen, yr Arweinydd Portffolio sydd â chyfrifoldeb am barciau gwledig Cyngor Gwynedd:

'Rydym wrth ein bodd fod y parciau wedi ennill y wobwr bwysig yma am yr ail flwyddyn yn olynol. Mae'r wobwr genedlaethol hon yn profi y gall Gwynedd ymfalchïo fod yma barciau gwych a mannau gwyrdd sy'n cynnig profiad unigryw i drigolion Gwynedd ac ymwelwyr.

'Mae'r ffaith fod y ddau barc wedi derbyn y wobwr unwaith eto eleni yn cadarnhau fod Parc Padarn a Pharc Gwledig Glynllifon yn cynnig croeso cynnes ac yn barciau sydd yn cael eu rheoli'n dda er budd y gymuned leol.'

Ychwanegodd Barry Davies, Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig Cyngor Gwynedd:

'Rydym yn hynod o falch fod ein parciau wedi derbyn gwobr y Faner Werdd genedlaethol yn 2009. Mae dal y statws hwn yn gydnabyddiaeth o ymroddiad a gwaith caled staff yn y ddau barc, ac yn tanlinellu'r hyn yr oeddem eisoes yn ei wybod, sef fod Glynllifon a Pharc Padarn yn cynnig profiad gwych, a'u bod yn gallu cystadlu gyda'r parciau gwledig a'r mannau gwyrdd gorau yn y Deyrnas Unedig.'

Mae'n rhaid i safleoedd sydd wedi sicrhau'r Wobr Baner Werdd fod yn hygyrch i'r cyhoedd, a chynnig croeso i'r gymuned leol.

Mae safleoedd yn cael eu beirniadu yn flynyddol gan rwydwaith o dros 600 o unigolion proffesiynol, gyda'r safleoedd buddugol yn cael eu gwobrwyo gyda Baner Werdd fel er mwyn amlinellu eu statws.

Siop Waunfawr

(Howard a Debbie)

**Pay Point, Papur Newydd,
Cardiau Cymraeg, Cylchgronau,
Bwydydd, Nwyddau Tŷ**

Ffôn: (01286) 650834

Diolch am gefnogi'r fenter newydd

ar agor 7.30 - 6.30

8.00 - 6.00 (Sadwrn)

9.00 - 12.00 (Sul)

e-bost: siopwaunfawr@live.com

CHWARAEON

YDY'N AMSER 'TARO'R POST'

Gwrando ar Dylan Jones yn cynhyrfu'r dyfroedd yn ei ffordd ddeheuig oeddw'n un prynhawn. Y testun dan sylw oedd y gefnogaeth - neu'r ddiffyg gefnogaeth - i'n tîm cenedlaethol yn ein stadiwm ysblennydd. Roedd dan 15,000 yno i wyllo'r gêm yn erbyn Rwsia. Rhoddwyd bai ar ddiffyg llwyddiant y tîm yn y cyfnod yma o ailsefydlu, prisiau tocynnau, tactegau Toshack a.y.y.b.

'Onid oes dyletswydd arnom i gefnogi'r tîm, yn enwedig i gefnogi'r chwaraewyr ieuanc sy'n ceisio sefydlu eu hunain?' oedd cwestiwn Dylan. Yna cafwyd yr ateb gan un o gefnogwyr Caerdydd.

'Yng Nghymru y mae pêl-droed yn BLWYFOL.' Hynny yw, yn ei farn ef, y mae canlyniadau Caerdydd ac Abertawe yn bwysicach na rhai Wales. (Daeth 25,000 i weld Caerdydd yn colli i Newcastle ar y Sul.) Ydy canlyniad Man U, Lerpwl, Everton, Spurs.. yn fwy pwysig ym Mro'r Eco na chanlyniad Llanrug, Llanberis, Bethel.....

Fe es i feddwl am y term PLWYFOL. 'Yn gul ei meddwl' yw'r diffiniad yn y Geiriadur Mawr. Dipyn o honiad - a sarhad efallai. Dim ond meddwl am ein hunain efallai. Dim yn deall, efallai.

Ceisais weld a oedd hyn yn wir yng nghyswllt pêl-droed yn lleol yn ddiweddar. Codi calon i ddechrau, gyda phenodiad dau enw cyfarwydd lleol, Derek Roberts a Mel Jones, fel cyd-reolwyr newydd Caernarfon. Yna yn yr un gwynt gweld bod y Cofis wedi arwyddo pedwar chwaraewr newydd - i gyd o lannau Merswy! Y ddau wedi eu penodi oherwydd eu gwybodaeth a phrofiad o 'bêl-droed lleol' ond fawr o locals yn lifrau'r Cofis. Er yr holl 'academis' onid oes chwaraewyr lleol ar gael. Ynteu, onid rhyw dân shafins o syniad gyda llu o drac-wisgoedd crand yw'r akademis yma yn y pen draw. Mae mwy o chwaraewyr ieuanc yn aelodau o glybiau o 7 i 16 oed nac erioed. Mae mwy wedi ei fuddsoddi mewn cynhyrchu hyfforddwy'r trwyddedig nac erioed. Pryd y cynhyrchwyd y chwaraewr rhyngwladol olaf o'r cadarnleoedd hyn?

Yna ymddiswyddiad Campbell Harrison, fel rheolwr tîm Hotspur Caerdybi. Gŵr poblogaidd iawn, uchel ei barch. Ei reswm: 'na allai fynd

â'r clwb ymlaen ymhellach.' Ar hyn o bryd mae'r clwb yn chwarae un lefel oddi tan y Gynghrair Genedlaethol. Beth sy'n amharu ar y datblygiad tybed? Diffyg arian, chwaraewyr, gweledigaeth... Ydy ein chwaraewyr ieuanc am fentro i chwarae ar y lefel uchaf posibl, neu yn fodlon i roi'r gorau iddi yn 16 oed gyda llond cwpwrdd o blasting yn atgofion? Gyda llaw, os nad yw Port yn gwella eu perfformiadau a fydd cysgod Campbell yn poeni Tomi Morgan?

Llu o gwestiynau sydd gennyf a theimlaf fod eisiau ateb rhai ohonynt yn fuan. Beth yw gwir strwythr pel-droed yn 'genedlaethol' Ydy pob cynghrair yn fricsen bwysig yn mur y bêl-droed a'i datblygiad?

Yn y tymhorau nesaf mae cryn newid ar y ffordd. Cynghreiriau llai, cynghreiriau i ail ddimioedd ac yn y blaen. Ai hyn yw'r ffordd ymlaen fel bod llwybr pendant o'r lefel ieuencid lleol i'r copa cenedlaethol.

Ynteu ydyn ni'n hapus i weld y twf anhygoel yn y rhifau ieuencid yn ein clybiau fel cyflawni dyletswydd cymdeithasol pwysig. Gyda llaw, bydd timau dan saith yn chwarae pedwar pob ochr. Faint o dimau fydd yn y clybiau tybed? Beth wna i gyda chystadleuaeth Eco'r Wyddfa? Ie, mae'n siŵr mai rhyw greddur plwyfol ydwyf yn y bôn.

TLWS I'R TROELLWR

Eleni sefydlwyd trydydd tîm yng nghlwb criced Bangor. Mae'r tîm yn chwarae ar y Sul mewn cynghrair penodol dan nawdd Cynghrair Gogledd Cymru.. Y bwriad yw cynnal diddordeb a datblygiad chwaraewyr ieuanc wedi iddynt orffen â'r strwythr cynghreiriol ieuencid lleol yn 15 oed. Y capten yw Peter Evison, Caethro, tipyn o chwaraewr yn ei ddydd a hyfforddwr penigamp. Yn wir, yn 2008 Peter a enillodd y tlws i'r bowliwr mwyaf llwyddiannus yn ail dîm Bangor.

Yn noson wobrwyo y clwb am dymor 2009 cyflwynwyd tlws i'r chwaraewr mwyaf addawol yn y trydydd tîm. I ennill y tlws, cymerwyd i ystyriaeth ddatblygiad, perfformiad, poblogrwydd ymysg y cyfoedion ac ymroddiad. Roedd Siôn Evans

LLEWOD LLANRUG - ENNILL ETO



Llongyfarchiadau unwaith eto ar ennill twrnament yn Llanrug. Rhaid oedd i'r hogia guro er mwyn Ryan Joyce a gafodd ddamwain ar y sgwâr.

RHEDEG MYNYDD

Llongyfarchiadau i nifer o blant cynradd ac uwchradd y fro a fu'n cystadlu ym Mhencampwriaethau Ieuencid Gogledd Cymru ar y Gogarth, Llandudno yn ystod y mis a aeth heibio. Mae nifer ohonynt yn aelodau o Glwb Menai yn Nhreborth, ac eraill yn aelodau o Redwyr Eryri. Mae cryn dipyn o ddiddordeb yn cael ei ddangos gan ieuencid y fro yn y gamp o redeg mynyddoedd, a gobeithiwn weld llwyddiant yn ystod y tymor nesaf.

Bellach, mae tymor rasys mynydd yn dirwyn i ben, ac amryw yn edrych ymlaen am

o Benisarwaun yn enillydd poblogaidd iawn. Bu Siôn yn cynrychioli timau ieuencid Eryri fel troellwr coes. Hefyd mae ei ddawn gyda'r bat wedi datblygu dros y tymor. Edrychwn ymlaen iddo symud ymlaen i'r ail dîm a gobeithio, mewn tymor neu ddau, i'r Uwch Adran yn y tim cyntaf. Aelod rheolaidd arall o'r trydydd tîm yw Dylan, tad Siôn, ynghyd â Dyfan Coles o Fethel, sydd yn datblygu yn fowliwr addawol. Oes mwy ohonoch â diddordeb? Bydd croeso o hyd yn Nhŷ Newydd.

MARATHON ERYRI

Deallwn fod nifer go dda o redwyr lleol yn ymarfer yn galed ar gyfer marathon galetaf Ewrop, a gynhelir ddiwedd fis Hydref. Unwaith eto, bydd Cwmni Da o Gaernarfon yn ffilmio'r ras. Dymunwn bob llwyddiant i bawb lleol sydd yn cystadlu.

gychwyn y tymor rasio traws gwlad. Bydd y gystadleuaeth gyntaf yng nghyffres y gaeaf eisoes wedi ei chynnal ym Mharc Eirias, Bae Colwyn erbyn i'r rhifyn hwn o'r 'Eco' ddod o'r wasg.

RHEDIAD Y CWSPAN

Llanelli, Bangor..... Ie, gemau mawr ar Eithin Duon yn y ddau dymor diwethaf. Mae'r daith wedi cychwyn eto drwy drechu Nefyn 4-3 yn y rownd gyntaf. Yn anffodus, mae'n rhaid i Lanrug deithio draw i Gresffordd o Gynghrair yr Alliance yn y rownd nesaf. Hefyd, mae Llanrug yn cystadlu yn yr FAW Trophy. Pob lwc i'r hogiau, a gobeithio gellir denu 'tîm mawr' arall draw i Eithin Duon eleni.

DALFA ANHYGOEL



Hefin Hughes, Rhosbodrual (caeathro gynt) gyda'r sewin 16pwys 10 owns pwys a ddaliodd ar afon Saint ger hen ffatri Peblig yn gynharach y mis hwn. Dyma'r mwyaf i'w ddal ers rhai blynnyddoedd a bu'n rhaid clirio'r rhewgell i wneud digon o le i'r morfilyn!!